# Ymgorffori cyflogadwyedd moesegol a chynaliadwy mewn addysg drydyddol: enghreifftiau o arfer gorau

## Prosiect AU Cymru Gyfan

**Prifysgol Abertawe:** Dr Samantha Burvill (s.m.Burvill@abertawe.ac.uk), Ms Beth Cummings (beth.cummings@abertawe.ac.uk), Mr Simeon Smith (s.f.g.smith@abertawe.ac.uk), Dr Fern Davies (fern.b.davies@abertawe.ac.uk), Ms Sara Job (Myfyriwr Intern)

**Prifysgol Wrecsam:** Lucy Jones (lucy.jones@wrecsam.ac.uk)

**Prifysgol Caerdydd:** Gemma Peterson (petersong@caerdydd.ac.uk)

**Y Brifysgol Agored:** Laura Carter (laura.carter@open.ac.uk)

**Prifysgol Aberystwyth:** Dr Saffron Passam (sap49@aber.ac.uk)

**Prifysgol Bangor:** Hizamshol Shamshul Kamal (aosc3d@bangor.ac.uk)

# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| **Crynodeb Gweithredol** | | **5** |
| **1** | **Cyflwyniad** | **6** |
| 1.1 | Y Cefndir | 6 |
| **2** | **Cyflogadwyedd moesegol a chynaliadwy** | **7** |
| 2.1 | Cyflwyniad | 7 |
| 2.2 | Diffiniadau | 7 |
| 2.3 | Fframweithiau a mentrau: heriau byd-eang | 8 |
| 2.4 | Rôl addysg drydyddol | 8 |
| **3** | **Dull methodolegol** | **10** |
| 3.1 | Dull ansoddol yn seiliedig ar astudiaethau achos | 10 |
| 3.2 | Cymeradwyaeth foesegol | 10 |
| 3.3 | Dadansoddi data | 10 |
| **4** | **Y Canfyddiadau** | **11** |
| 4.1 | Mentrau cyflogadwyedd moesegol a chynaliadwy | 11 |
| 4.2 | Cyfraniad at gyflogadwyedd moesegol a chynaliadwy | 18 |
| 4.3 | Gwerthuso mentrau | 22 |
| 4.4 | Prif fuddion y mentrau | 23 |
| 4.5 | Gwelliannau i fentrau a chamau i'r dyfodol | 24 |
| 4.6 | Mewnwelediadau allweddol a goblygiadau ymarferol | 25 |
| **5** | **Casgliad** | **27** |

**6 Argymhellion 28**

6.1 Datblygu adnoddau - pecyn cymorth 28

6.2 Cydweithio a chyfathrebu 28

6.3 Ymchwil/prosiectau pellach 28

**7 Cyfeiriadau 29**

**Atodiadau 31**

Atodiad 1 – Ffurflen enghreifftiol cyflogadwyedd moesegol a chynaliadwy 31

Atodiad 2 – Crynodeb o fentrau cyflogadwyedd moesegol a chynaliadwy 35

Atodiad 3 – tablau codio thematig 43

**8 Geirfa 48**

**9 Diolchiadau 49**

# Crynodeb Gweithredol

Yr adroddiad hwn yw penllanw'r gwaith a wnaed gan grŵp gorchwyl a gorffen a ddynodwyd gan Gymuned Ymarfer (CY) Medr ac AU Ymlaen ar gyfer Cyflogadwyedd. Ar gyfer blwyddyn academaidd 2024-25, rhoddodd y Gymuned Ymarfer flaenoriaeth i ddau faes allweddol drwy ffurfio grwpiau gorchwyl a gorffen. Thema un o'r grwpiau hynny oedd Cyflogadwyedd Moesegol a Chynaliadwy (CMaCh). Wrth i flaenoriaethau byd-eang symud tuag at gynaliadwyedd a chyfrifoldeb cymdeithasol, rhaid i addysg uwch arfogi graddedigion â'r sgiliau i ffynnu mewn marchnad swyddi sy'n cael ei gyrru gan bwrpas. O'r herwydd, cafodd y Grŵp CMaCh y dasg o adolygu rôl dyngedfennol prifysgolion o ran siapio llwybrau gyrfa i fyfyrwyr sy'n gynaliadwy ac yn dangos ymwybyddiaeth o agweddau moesegol. Yn rhan o hyn, gofynnwyd i'r grŵp archwilio arferion gorau wrth integreiddio cynaliadwyedd i gwricwla, meithrin datblygiad gyrfaoedd cyfrifol, a phartneru â diwydiannau sy'n rhannu'r gwerthoedd hyn.

Cynhaliwyd y prosiect rhwng mis Mawrth a chanol mis Mehefin 2025 a defnyddiodd ddull casglu data yn seiliedig ar arfer gorau/astudiaethau achos drwy e-bost ac ar dafod leferydd. Anfonodd pob aelod o'r prosiect y templed at wahanol gysylltiadau yn eu sefydliadau eu hunain ac at ddetholiad o randdeiliaid allanol. Dadansoddwyd enghreifftiau drwy ddefnyddio dadansoddiad thematig.

Fel cyfanswm, casglwyd 49 o astudiaethau achos gan sefydliadau yng Nghymru yn ystod yr ymarfer casglu data. Mae'r adroddiad yn nodi cyfraniad y rhain at gyflogadwyedd moesegol a chynaliadwy ac yn gwerthuso'r mentrau, gan gynnwys manteision allweddol a meysydd i'w gwella neu gamau i'r dyfodol a mewnwelediadau allweddol. Mae'r adroddiad yn canfod, drwy ddatblygiadau arloesol y cwricwlwm, mentrau allgyrsiol ac ymgysylltu â chyflogwyr, fod addysgwyr yn creu cysylltiadau rhwng cyflogadwyedd, Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig, ac, yng Nghymru, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015). Ar yr un pryd, mae'r adroddiad yn nodi heriau parhaus, yn enwedig mewn perthynas â chyfyngiadau ariannol a phwysau llwyth gwaith. Mae'r prif argymhellion yn canolbwyntio ar ddatblygu pecyn cymorth, cydweithio a chyfathrebu, a phrosiectau yn y dyfodol.

# 1 Cyflwyniad

## 1.1 Y Cefndir

Yr adroddiad hwn yw penllanw'r gwaith a wnaed gan grŵp gorchwyl a gorffen a ddynodwyd gan Gymuned Ymarfer (CY) Medr ac AU Ymlaen ar gyfer Cyflogadwyedd. Nod y CY yw llywio penderfyniadau polisi strategol ar gyflogadwyedd a sgiliau yng Nghymru a grymuso a rhannu arfer da ar draws y sector. Er mwyn gwneud hyn bydd y CY yn gwella ansawdd a darpariaeth cymorth cyflogadwyedd, oddi mewn i'r cwricwlwm a thu hwnt. Ar gyfer blwyddyn academaidd 2024-25, blaenoriaethodd y Cod Ymarfer ddau faes allweddol drwy grwpiau gorchwyl a gorffen, ac un o'r meysydd hynny oedd Cyflogadwyedd Moesegol a Chynaliadwy (CMaCh).

Wrth i flaenoriaethau byd-eang symud tuag at gynaliadwyedd a chyfrifoldeb cymdeithasol, rhaid i addysg uwch arfogi graddedigion â'r sgiliau i ffynnu mewn marchnad swyddi sy'n cael ei gyrru gan bwrpas. O'r herwydd, cafodd y Grŵp CMaCh y dasg o adolygu rôl dyngedfennol prifysgolion o ran siapio llwybrau gyrfa i fyfyrwyr sy'n gynaliadwy ac yn dangos ymwybyddiaeth o agweddau moesegol. Yn rhan o hyn, gofynnwyd i'r grŵp archwilio arferion gorau wrth integreiddio cynaliadwyedd i gwricwla, meithrin datblygiad gyrfaoedd cyfrifol, a phartneru â diwydiannau sy'n rhannu'r gwerthoedd hyn. Yn rhan o'r prosiect hwn, roedd disgwyl i'r grŵp CMaCh:

+ weithio o bell ac ar y cyd i nodi pwyntiau addas ar gyfer isafswm o dri chyfarfod o fewn y flwyddyn ar wahân i'r Gymuned Ymarfer
+ paratoi deunyddiau priodol (gallai hyn gynnwys arolwg, adroddiad, cyflwyniad, astudiaeth achos ac ati ymhlith deunyddiau eraill)
+ diweddaru a chynnal pob agwedd ar y prosiect yng ngofod y Gymuned Ymarfer ar y porth ar-lein (Connect), gan roi diweddariadau bob pythefnos
+ llunio crynodeb digidol
+ cyflwyno'r canfyddiadau yng nghyfarfod y Gymuned Ymarfer ar 10 Mehefin 2025.

# 2 Cyflogadwyedd moesegol a chynaliadwy

## 2.1 Cyflwyniad

Mae'r sector addysg drydyddol yn chwarae rhan allweddol wrth baratoi myfyrwyr i fodloni gofynion tirlun byd-eang sy'n fwyfwy cymhleth a chydgysylltiedig. Er gwaethaf cydnabyddiaeth gynyddol o'r cyfrifoldeb hwn, hyd yma bu ymdrechion i ymgorffori addysg sy'n gyson â heriau byd-eang yn dameidiog ac anghyson ar draws sefydliadau (Cenhedloedd Unedig, 2024). Er mwyn ymateb yn effeithiol i'r her hon, mae'n glir bod angen mynd ati ar frys, ac mewn modd systematig, i integreiddio moeseg, cynaliadwyedd a chysyniadau ar gyfer Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy mewn addysg drydyddol. Bydd gwneud hynny yn rhoi'r wybodaeth, y cymwyseddau a'r gwerthoedd angenrheidiol i fyfyrwyr allu cyfrannu'n ystyrlon at gyflawni nodau byd-eang a chyflawni gwerth cyhoeddus a chymdeithasol hirdymor, (UNESCO, 2024).

## 2.2 Diffiniadau

Er mwyn sicrhau bod gan randdeiliaid o bob rhan o Gymru, y cysylltwyd â nhw ynghylch y prosiect hwn, ddealltwriaeth debyg o'r hyn y mae cyflogadwyedd moesegol a chynaliadwy yn ei olygu, cynhaliodd y grŵp prosiect ymarfer wrth ddesg i gwmpasu gwahanol ddiffiniadau. Canlyniad hyn oedd dewis diffiniadau Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy ac AU Ymlaen (a ddangosir isod) o ystyr "cyflogadwyedd moesegol a chynaliadwy".

- *"Mae Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy yn grymuso dysgwyr i wneud penderfyniadau deallus a chymryd camau cyfrifol er cywirdeb amgylcheddol, hyfywedd economaidd a chymdeithas gyfiawn, ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol, gan barchu amrywiaeth ddiwylliannol. Mae'n ymwneud â dysgu gydol oes, ac yn rhan annatod o addysg o safon. Addysg gyfannol a thrawsnewidiol yw Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy, sy'n mynd i'r afael â chynnwys a deilliannau dysgu, addysgeg a'r amgylchedd dysgu. Mae'n cyflawni ei diben drwy drawsnewid cymdeithas."* (UNESCO, 2021, t8).
- Mae Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy "*yn rhoi'r wybodaeth, y cymwyseddau a'r gwerthoedd i ddysgwyr fynd i'r afael â heriau byd-eang a chael effaith gadarnhaol ar gynaliadwyedd economaidd, gymdeithasol ac amgylcheddol.*" (AU Ymlaen, 2024, t2).
- Fe'i disgrifir hefyd gan AU Ymlaen a QAA fel "*y broses o greu strwythurau cwricwlwm a chynnwys sy'n berthnasol i'r pwnc i gefnogi a gweithredu datblygiad cynaliadwy.*" (QAA ac AU Ymlaen, 2021, t2)

Mae'n ddiddorol nodi, yn ystod sgyrsiau anffurfiol, fod rhai rhanddeiliaid wedi dehongli cyflogadwyedd moesegol a chynaliadwy i olygu hirhoedledd gyrfa a busnes moesegol. Er bod y rhain yn gysyniadau pwysig sy'n ffocws i ymarferwyr, llunwyr polisi ac academyddion fel ei gilydd,

nid oedd hynny o fewn cwmpas na ffocws y prosiect hwn. Yn hytrach, roedd gan y prosiect hwn ffocws clir ar gasglu enghreifftiau o arfer gorau o ran datblygu sgiliau a chymwyseddau moesegol a chynaliadwy yn o fewn addysg drydyddol.

## 2.3 Fframweithiau a mentrau: heriau byd-eang

Mae nifer o fframweithiau a mentrau rhyngwladol wedi cael eu datblygu i gefnogi ymdrechion datblygu cynaliadwy. Mae'n bwysig felly inni ddeall beth yw'r rhain, a deall eu pwysigrwydd i'r sector addysg. Un o'r conglfeini yw Nodau Datblygu Cynaliadwy (NDCau) y Cenhedloedd Unedig, a fabwysiadwyd yn 2015 gan holl aelod-wladwriaethau'r Cenhedloedd Unedig. Mae'r NDCau yn cynnwys 17 o nodau byd-eang sy'n anelu i fynd i'r afael â heriau brys – gan gynnwys tlodi, iechyd, addysg, cydraddoldeb rhywiol a gweithredu ar newid hinsawdd – erbyn 2030. Er nad ydynt yn gyfreithiol rwymol, disgwylir i wledydd gymryd perchnogaeth a gweithredu fframweithiau cenedlaethol i gyflawni'r nodau (Cenhedloedd Unedig, 2015). Defnyddir yr NDCau yn helaeth mewn addysg fel offeryn i addysgu ynghylch cyfrifoldeb byd-eang. Fodd bynnag, dengys asesiadau diweddar fod y byd ymhell oddi ar y trywydd iawn o ran cyflawni'r nodau hyn, gan danlinellu'r angen i baratoi myfyrwyr am heriau cynaliadwyedd parhaus ac ar ôl 2030 (UNESCO, 2024).

Yng Nghymru, mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn darparu fframwaith cyfreithiol unigryw sy'n anelu i wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol y genedl. Mae'r Ddeddf yn cynnwys saith nod llesiant, sy'n gyson â'r Nodau Datblygu Cynaliadwy, y mae'n ofynnol i gyrff cyhoeddus – gan gynnwys adrannau'r llywodraeth, awdurdodau lleol a byrddau iechyd – anelu atynt. Mae'r rhain yn cynnwys:

1. Cymru lewyrchus
2. Cymru gydnerth
3. Cymru iachach
4. Cymru sy'n fwy cyfartal
5. Cymru o gymunedau cydlynus
6. Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
7. Cymru sy'n gyfrifol ar raddfa fyd-eang

Er ei bod wedi'i thargedu at y sector cyhoeddus, mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn berthnasol ar raddfa ehangach ac yn fframwaith effeithiol i greu cyd-destun ar gyfer cynaliadwyedd o fewn addysg, yn enwedig yng Nghymru.

## 2.4 Rôl addysg drydyddol

Mae sefydliadau addysg mewn sefyllfa unigryw i hyrwyddo cynnydd tuag at ddatblygu cynaliadwy. Yn ôl UNESCO, gall sefydliadau addysg gyfrannu'n sylweddol at y NDCau drwy ymchwil, arloesi, ymgysylltu â rhanddeiliaid a datblygu cyfalaf dynol (UNESCO, 2024). Mae

Datganiad Berlin (UNESCO, 2022) yn galw am ymrwymiad dyfnach i Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy, gan gydnabod addysg fel offeryn sylfaenol ar gyfer trawsnewid a chynaliadwyedd.

Er mwyn integreiddio Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy yn effeithiol, mae angen ymagwedd sefydliad cyfan, sy'n cwmpasu dyluniad y cwricwlwm, arferion addysgu, llywodraethu a phartneriaethau cymunedol (AU Ymlaen, 2024). Er bod llawer o sefydliadau'n dechrau ymgorffori Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy yn weithredol, mae angen gwneud mwy gan fod hyn yn prysur ddatblygu'n ddisgwyliad sylfaenol ymhlith myfyrwyr. Dengys ymchwil fod 91% o fyfyrwyr yn pryderu am newid hinsawdd ac eisiau i hynny gael ei adlewyrchu yn eu cyrsiau (Comisiwn Hinsawdd ar gyfer Addysg Uwch a Phellach, 2021). Nid ychwanegiad dewisol mwyach yw cynnwys heriau byd-eang ac egwyddorion cynaliadwyedd – mae'n elfen graidd wrth baratoi myfyrwyr am gyflogaeth a dinasyddiaeth fyd-eang gyfrifol mewn byd sy'n newid yn gyflym.

Er bod fframweithiau a chanllawiau sy'n bodoli i helpu addysg drydyddol i gyflawni'r nodau hyn (fel Canllawiau ar Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy (QAA ac AU Ymlaen, 2021) gan AU Ymlaen a'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch, Glasbrint PRME y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Integreiddio'r NDCau i'r Cwricwlwm (PRME, 2020) a'r Pecyn Cymorth Dylunio Cwricwlwm Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy (Higgins a Calvert, 2025)) mae angen pecyn cymorth hygyrch a hawdd ei ddefnyddio sy'n rhoi astudiaethau achos arfer gorau i addysgwyr y gallant eu rhoi ar waith yn eu sefydliadau eu hunain. Nod yr adroddiad hwn yw bod yn fan cychwyn ar gyfer hyn, gyda'r adroddiad yn gweithredu fel trosolwg o'r prosiect. I gyd-fynd â'r adroddiad hwn, bydd pecyn cymorth sy’n darparu continwwm o enghreifftiau o arfer gorau, sy'n amrywio o ran rhwyddineb eu gweithredu a'r gofynion o ran adnoddau yn cael ei gynhyrchu, ynghyd â manylion ynghylch sut i weithredu’r rhain yn ymarferol.

# 3 Dull methodolegol

## 3.1 Dull ansoddol yn seiliedig ar astudiaethau achos

Cynhaliwyd y prosiect rhwng mis Mawrth a chanol mis Mehefin 2025, gan gynnal cyfanswm o chwe chyfarfod grŵp gorchwyl a gorffen. Oherwydd yr amserlen, dewiswyd dull casglu data ar astudiaethau achos/arfer gorau yn hytrach na chyfweliadau neu arolygon. Y dyluniad a ddewiswyd ar gyfer yr ymchwil oedd dadansoddiad dogfennol o astudiaethau achos ac enghreifftiau o arfer gorau, drwy gysylltu ar e-bost ac ar dafod leferydd. Cynhyrchodd y tîm ymchwil dempled (gweler Atodiad 1) a anfonwyd i bob sefydliad a detholiad o randdeiliaid allanol, yn gofyn am enghreifftiau o arfer gorau yn gysylltiedig â chyflogadwyedd moesegol a chynaliadwy. Anfonodd pob aelod o'r prosiect y templed at gysylltiadau yn eu sefydliadau eu hunain (er enghraifft, arweinwyr cyflogadwyedd, gwasanaethau gyrfaoedd, gwasanaethau menter ac entrepreneuriaeth, cyfarwyddwyr rhaglenni, staff academaidd) a hefyd at randdeiliaid allanol dethol (fel Cydbwyllgor Addysg Cymru a Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol). Casglwyd data drwy e-bost gyda chyfle i rannu adnoddau/delweddau ac ati yn gysylltiedig â phob enghraifft a gyflwynwyd.

Nod y prosiect oedd casglu enghreifftiau o bob sefydliad yng Nghymru a'r rhai a oedd yn cwmpasu: agweddau cwricwlaidd, allgyrsiol, gwasanaethau gyrfaoedd a ffocws ar ddigwyddiadau, menter ac entrepreneuriaeth, sefydliadau addysg bellach (AB) a rhanddeiliaid ehangach. Fodd bynnag, roedd y rhan fwyaf o'r enghreifftiau a gyflwynwyd o sefydliadau addysg uwch (AU) gydag ond dwy enghraifft o sefydliadau AB o fewn y terfyn amser a roddwyd. Mae'n bwysig ystyried hyn wrth adolygu'r data a gasglwyd a'r canfyddiadau. Bydd casglu enghreifftiau gan fwy o sefydliadau AB a rhanddeiliaid allanol yn cael ei gynnwys yn rhan o brosiect parhaus.

## 3.2 Cymeradwyaeth foesegol

Gofynnwyd am gymeradwyaeth foesegol, a chael y gymeradwyaeth honno, drwy'r sefydliad arweiniol (Prifysgol Abertawe). Roedd y gymeradwyaeth foesegol yn cwmpasu pob sefydliad AU arall a oedd yn rhan o dîm y prosiect ac fe'i cafwyd er mwyn sicrhau cydsyniad i rannu'r enghreifftiau. Gellir darparu'r ddogfen cymeradwyaeth foesegol ar gais.

## 3.3 Dadansoddi data


Defnyddiwyd samplau ar sail cyfleustra i gasglu enghreifftiau o arfer gorau o bob sefydliad. Roedd hyn oherwydd natur ac amserlen y prosiect. Casglwyd yr enghreifftiau hyn drwy ddefnyddio'r ffurflen yn Atodiad 1 a'u trosglwyddo i daenlen cyn eu dadansoddi drwy ddefnyddio dadansoddiad thematig (Braun a Clarke, 2006). Ceir crynodeb o bob un o'r 49 o brosiectau yn nhabl Atodiad 2. Cafodd gwybodaeth ar gyfer pob astudiaeth achos ei chodio drwy ddefnyddio codio'r drefn gyntaf a'r ail drefn yn unol â'r tablau codio yn Atodiad 3, a nodwyd themâu a oedd yn dod i'r amlwg a oedd yn berthnasol i gyflogadwyedd moesegol a chynaliadwy.

# 4 Y Canfyddiadau

## 4.1 Mentrau cyflogadwyedd moesegol a chynaliadwy

Ceir tabl yn Atodiad 2 sy'n crynhoi'r holl enghreifftiau o arfer gorau o'r prosiect hwn. Fel cyfanswm, casglwyd 49 o astudiaethau achos gan sefydliadau yng Nghymru yn ystod yr ymarfer casglu data. Roedd yr enghreifftiau o gyflogadwyedd cynaliadwy a moesegol yn amrywio rhwng 1) gweithgareddau dysgu ac addysgu, cyrsiau ac adnoddau, 2) prosiectau myfyrwyr, 3) dulliau asesu, 4) hyfforddiant a chymorth staff, 5) adborth myfyrwyr, 6) cymorth myfyrwyr, 7) digwyddiadau, 8) adnoddau cyflogadwyedd, 9) cystadlaethau, 10) gwobrau, cymwysterau a chyllid, 11) polisïau ac 12) rhwydweithiau a fforymau. Mae Ffigur 1 yn crynhoi'r mentrau ac yn tynnu sylw at y nifer a ddarparwyd o dan bob thema.

| Themâu |
|---|
| Dysgu ac Addysgu |
| Prosiectau myfyrwyr |
| Asesu |
| Hyfforddi a chefnogi staff |
| Adborth myfyrwyr |
| Cymorth i fyfyrwyr |
| Digwyddiadau |
| Adnoddau cyflogadwyedd |
| Cystadlaethau |
| Dyfarniadau, cymwysterau a chyllid |
| Polisïau |
| Rhwydweithiau a fforymau |




Ffigur 1. Mentrau cyflogadwyedd moesegol a chynaliadwy

### Dysgu ac Addysgu

Roedd y mentrau a oedd yn cyd-fynd â dysgu ac addysgu ar ffurf modiwlau, seminarau, darlithoedd a chynnwys a gweithgareddau gweithdai, dulliau asesu, prosiectau myfyrwyr adnoddau addysgol a chyrsiau allgyrsiol. Er enghraifft, modiwlau fel 'Rheoli Amgylcheddol a Chynaliadwy', 'Moeseg mewn Peirianneg' ac 'Ymgorffori Dulliau Gwyrdd yn Ymarfer y Cyfryngau' gan Brifysgol Abertawe, 'Ymgorffori NDCau'r Cenhedloedd Unedig a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) fel Sbardunau ar gyfer Ymchwil mewn Biotechnoleg' a 'Newid Ymddygiad' gan Brifysgol Aberystwyth, 'Adfer Paradwys: Cynaliadwyedd yn y Blynyddoedd

Cynnar' gan Brifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant a 'Gwyddor Daear' a 'Hanes Amgylcheddol' gan Brifysgol Caerdydd.

Cynnwys seminarau, darlithoedd a gweithdai oedd y mentrau mwyaf cyffredin i gael eu hadrodd fel rhai a oedd yn berthnasol i gyflogadwyedd moesegol a chynaliadwy. Mae enghreifftiau'n cynnwys y ddarlith 'Ymgorffori Cynaliadwyedd yn y Gyfraith' a'r seminar 'Marchnata er Lles' a gyflwynwyd mewn cydweithrediad â diwydiant ym Mhrifysgol Abertawe, seminar 'Cyllid Cynaliadwyedd ac ESG' gan Brifysgol Bangor a'r darlithoedd 'Datblygu Cynaliadwy a Rheoli gyda Natur' a 'Mannau Newid Hinsawdd' a gyflwynwyd gan Brifysgol Caerdydd. Roedd gan 'gweithdai MSc Ffisiotherapi a Therapi Galwedigaethol Cyn-gofrestru' hefyd gynnwys i feithrin gwybodaeth am arferion cynaliadwy yn y sector gofal iechyd.

## Golwg ar

**Sefydliad:** Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant
**Teitl:** Adfer Paradwys: Cynaliadwyedd yn y Blynyddoedd Cynnar

+ Mae'r fenter hon yn ymwneud â modiwl o fewn y Radd Addysg a Gofal y Blynyddoedd Cynnar yn y brifysgol. Mae'r modiwl wedi ymgorffori Gwobr John Muir yn ogystal â phrofiadau ymarferol eraill i gefnogi dealltwriaeth myfyrwyr o gysyniadau allweddol, gan ddefnyddio addysgeg brofiadol.
+ Er mwyn galluogi'r myfyrwyr i gymryd rhan yn y wobr, mae arweinydd y modiwl yn cofrestru ac yn talu ffi aelodaeth o £66 y flwyddyn.
+ Y dull gwerthuso ar gyfer y modiwl yw adborth a myfyrdod y myfyrwyr ar y profiad, yn ogystal ag archwiliad o'r wybodaeth a gasglwyd yn rhan o Wobr John Muir.
+ Bydd myfyrwyr sy'n canlyn gyrfa o fewn Addysg a Gofal y Blynyddoedd Cynnar wedi dysgu pwysigrwydd materion cynaliadwyedd a moesegol ac wedi ennill sgiliau yn y maes hwn. Ar ben hynny, gweithredu fel modelau rôl cadarnhaol i blant, rhieni a gweithwyr proffesiynol eraill.

Rhagwelir y bydd cyrsiau e-ddysgu fel cwrs 'Hinsawdd a Charbon' Prifysgol Abertawe a 'Chi, Fi a Dyfodol Cymru' y Brifysgol Agored yn amhrisiadwy wrth i dirlun digidol addysg drydyddol esblygu. Mae gan rwydweithiau a fforymau amlddisgyblaethol, fel 'Rhwydwaith Dinasyddion Ecolegol' Prifysgol Wrecsam a 'Fforwm Gweithredu Cynaliadwyedd', ran i'w chwarae hefyd er mwyn hyrwyddo cydweithio.

### Golwg ar

**Sefydliad:** Prifysgol Wrecsam
**Teitl:** Rhwydwaith Dinasyddion Ecolegol +

Mae'r fenter hon wedi'i lleoli yng Ngholeg Brenhinol y Celfyddydau, ac yn cael ei chynnal mewn cydweithrediad rhwng Prifysgol Wrecsam a Sefydliad Amgylchedd Stockholm ym Mhrifysgol Efrog. Pwrpas y fenter hon yw archwilio dinasyddiaeth ecolegol a bod yn gatalydd ar gyfer hynny, er mwyn gweithredu'n gadarnhaol ar newid hinsawdd mewn cymdeithas ddigidol gynaliadwy. Gall hyn fod drwy ymchwil, y rhwydwaith, cynlluniau ariannu, digwyddiadau a gweithgareddau.

Nod y rhwydwaith ymchwil pedair blynedd hwn yw archwilio a datblygu ffyrdd i bobl droi syniadau'n weithredu, a meithrin ymwybyddiaeth ecolegol ac arferion cynaliadwy o fewn eu cymunedau a'u hamgylcheddau.

Mae'r tîm trawsddisgyblaethol sy'n rhan o'r rhwydwaith yn caniatáu ystod amrywiol o sgiliau a gwybodaeth, gyda phawb yn anelu i weithio tuag at ddyfodol gwell i bawb.

## Asesu a phrosiectau myfyrwyr

Thema arall a nodwyd wrth gasglu data oedd asesu, gyda ffocws arbennig ar ddulliau arloesol a datblygiad rhinweddau graddedigion fel gwaith grŵp, datrys problemau, sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig, a chymhwyso problemau ymarferol o'r byd go iawn o fewn lleoliadau diwydiant perthnasol. Rhoddwyd llawer o sylw hefyd i brosiectau myfyrwyr fel dulliau pwysig o gynyddu cyflogadwyedd cynaliadwy a moesegol - er enghraifft, prosiectau wedi'u gosod gan randdeiliaid diwydiant fel 'Marchnata er Lles' a'r 'Prosiectau Busnes' copa ym Mhrifysgol Abertawe. Cyfeiriwyd hefyd at brosiectau grŵp fel 'Moeseg mewn Peirianneg' ym Mhrifysgol Abertawe, prosiectau grŵp 'MSc Ffisiotherapi a Therapi Galwedigaethol Cyn Cofrestru' ym Mhrifysgol Caerdydd, prosiect ymchwil archwilio'r cwricwlwm Nodau Datblygu Cynaliadwy dan arweiniad myfyrwyr y Brifysgol Agored a 'Phrosiect Labordy Byw' Prifysgol Wrecsam.

## Golwg ar

**Sefydliad:** Ysgol Rheolaeth Prifysgol Abertawe
**Teitl:** Prosiect Marchnata er Lles

Cafodd y fenter hon ei hymgorffori mewn modiwl gradd Lefel 5 o'r enw 'Marchnata Digidol' a oedd yn integreiddio prosiectau asesedig cysylltiedig â diwydiant yn seiliedig ar friffiau byw wedi'u gosod gan gleientiaid trydydd sector allanol. Drwy gydol y tymor, bu myfyrwyr yn ymgysylltu â'r cleientiaid hyn, gan gyfuno darlithoedd academaidd â datblygu sgiliau ymarferol y diwydiant mewn labordai.

Barnwyd yr ymgyrchoedd gan y cleientiaid a'r tîm academaidd, a rhoddwyd gwobrau, gan greu costau am luniaeth a thlysau i'w cyflwyno mewn seremoni (a ariannwyd gan y tîm cyflogadwyedd). Defnyddiwyd offer digidol am ddim gan gynnwys Canva, Leonardo a Semrush.

Roedd ffyrdd o werthuso'r fenter hon yn cynnwys sgoriau adborth myfyrwyr ac adborth uniongyrchol gan gleientiaid, adborth digymell ar y cyfryngau cymdeithasol, yn ogystal ag ansawdd gwaith y myfyrwyr.

Roedd y tasgau'n caniatáu i fyfyrwyr ennill profiad ymarferol gan gynyddu cyflogadwyedd, rhoddwyd cydnabyddiaeth iddynt am eu gwaith, ac roedd yr effaith wirioneddol yn amlwg o'r adborth a gasglwyd.

### Hyfforddi a chefnogi staff

Mae hyfforddi a chefnogi staff yn hanfodol er mwyn cyfrannu at gyflogadwyedd moesegol a chynaliadwy. Roedd yr enghreifftiau a nodwyd yn y canfyddiadau yn cynnwys gweithdy datblygu staff i gefnogi 'Pecyn Cymorth Cynaliadwyedd' Prifysgol Caerdydd a'i 'Weithgor Moeseg, Gwerthoedd a Chynaliadwyedd', Cwrs Canvas 'Ymgorffori Cynaliadwyedd a'r Argyfwng Hinsawdd mewn Cwricwla Addysg Uwch' yr Academi Dysgu ac Addysgu ym Mhrifysgol Abertawe a'r 'Cwrs E-ddysgu Hinsawdd a Charbon' ar-lein'. Mae digwyddiad 'Troi'n Wyrdd: Nodau Datblygu Mewnol' i'r staff a'r 'Cardiau Sgiliau Dysgu Cynaliadwyedd Dylunio' yn unol â'r fframwaith Cyfrifol drwy Ddylunio (RBD) yn gyfraniadau pellach tuag at hyfforddiant staff i hyrwyddo cynnwys a sgiliau perthnasol o fewn addysg.

### Golwg ar

**Sefydliad:** Tîm Cynaliadwyedd Prifysgol Abertawe
**Teitl:** Cwrs E-ddysgu Hinsawdd a Charbon Ar-lein

Crëwyd y fenter hon gan Dîm Cynaliadwyedd Prifysgol Abertawe, gan roi dealltwriaeth lefel uchel o garbon a newid hinsawdd ochr yn ochr ag enghreifftiau penodol o sefydliadau.

Mae'r cwrs yn para awr i ddwy awr a gall staff, myfyrwyr a rhanddeiliaid y brifysgol ei ddefnyddio. Defnyddiwyd cyllid CCAUC/Medr i gefnogi datblygiad y cwrs ar-lein ar Canvas, ond ni chodwyd unrhyw gost amdano gan y rhai a gwblhaodd yr e-ddysgu.

Ar ôl cwblhau'r cwrs a gwneud adduned i leihau allyriadau carbon, gall y dysgwr ennill tystysgrif ac e-fathodyn a gais. Gellir defnyddio nifer y ceisiadau fel y dull o werthuso ac o fesur llwyddiant.

Oherwydd fformat byr ond hynod addysgiadol y cwrs, gellir ei weithredu'n hawdd mewn cyrsiau, rhaglenni gradd a gweithgareddau allgyrsiol. Bydd myfyrwyr yn datblygu gwybodaeth a sgiliau a fydd yn amhrisiadwy wrth symud ymlaen â'u gyrfaoedd, ac mae'n rhoi'r hyfforddiant i staff allu gwneud gwahaniaeth yn eu gweithle.

## Adborth, cefnogaeth, digwyddiadau a chystadlaethau myfyrwyr

Roedd adborth myfyrwyr yn cynnwys enghreifftiau fel 'Arolwg Cynaliadwyedd Myfyrwyr' Prifysgol Abertawe, a oedd yn rhoi cyfle i fyfyrwyr fyfyrio ar gynnwys addysgu eu rhaglenni gradd o ran cynaliadwyedd, moeseg a gweithredu ar newid hinsawdd, wrth roi adborth ar gyfer datblygu'r cwricwlwm. Cynigiwyd cefnogaeth hefyd drwy fentrau addysgu, cymdeithasau myfyrwyr, digwyddiadau a chystadlaethau. Er enghraifft, y 'Fenter Ymgysylltu â'r Gymuned Greadigol' a'r 'Her Cynaliadwyedd' a gynhaliwyd gan Brifysgol Aberystwyth, 'Sustainathon' y Brifysgol Agored a 'Chymdeithas Myfyrwyr yr Economi Gylchol', 'Hacathon Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015)' Prifysgol Abertawe a'r digwyddiad rhyngwladol 'Hacathon Dyfeisio er Budd y Blaned'. Mae cystadlaethau fel 'Cronfa Crewyr Busnes' y Brifysgol Agored a gwobr John Muir hefyd yn hyrwyddo ymgysylltiad â datblygu cynaliadwy, moeseg a datblygu rhinweddau graddedigion.

## Golwg ar

**Sefydliad:** Y Brifysgol Agored
**Teitl:** Sustainathon

Her ar-lein wythnos o hyd yw'r fenter hon, lle bydd myfyrwyr STEM yn cydweithio mewn grwpiau er mwyn canfod atebion i her cynaliadwyedd yn y byd go iawn. Gosodir yr heriau gan gyflogwyr ac elusennau partner, lle gellir creu effaith.

Nid oes unrhyw gost i'r myfyrwyr presennol na'r graddedigion (hyd at dair blynedd ar ôl graddio) sy'n cymryd rhan yn y digwyddiad.

Caiff llwyddiant ei fesur yn yr adborth a roddir gan fyfyrwyr a sefydliadau partner, gan gynnwys pa mor fodlon yr oeddent â'r digwyddiad, a'r profiadau a'r sgiliau a enillwyd. Bydd elusennau'n gwerthuso'r atebion a roddir gan y myfyrwyr i weld pa mor dda y mae'r broses yn gweithio.

Mae'r prif fanteision yn cynnwys y profiad ymarferol, y cyfle i gydweithio'n effeithiol ac yn rhyngddisgyblaethol, ac effaith bosibl y digwyddiad hwn ar gymdeithas ehangach.

### Mentrau cyflogadwyedd dan arweiniad gyrfaoedd

Roedd adnoddau a mentrau penodol i gyflogadwyedd yn cynnwys y gweithdy myfyrwyr 'Cael Hyd i Waith Cynaliadwy' a gyflwynwyd gan y tîm cyflogadwyedd ym Mhrifysgol Abertawe a'r gweithdai 'Her Cynaliadwyedd' a gyflwynwyd gan Brifysgol Aberystwyth fel rhan o'i Gŵyl Gyrfaoedd. Mae'r 'Pecyn Cymorth Cynaliadwyedd i Gyflogwyr', 'Dyfodol Boddhaus yn yr Amgylchedd', adnodd e-ddysgu 'Ti, Fi a Dyfodol Cymru', yr adnoddau fideo digidol 'The Regenerators: Green Careers', 'Digwyddiad Troi'n Wyrdd Nodau Datblygu Mewnol' a 'Ffatri Sgiliau Digidol Medru' a ddarparwyd gan y Brifysgol Agored oll yn enghreifftiau o arfer gorau er mwyn paratoi rhanddeiliaid amrywiol i ymaddasu i dirlun y dyfodol. Yn olaf, mae 'Gweithgor Moeseg, Gwerthoedd a Chynaliadwyedd' Prifysgol Caerdydd a 'Sgiliau Cynaliadwy ar gyfer Dyfodol Mwy Disglair', 'Prosiect y Labordy Byw' a 'Fforwm Gweithredu Cynaliadwyedd' Prifysgol Wrecsam hefyd yn cyfrannu'n benodol at gyflogadwyedd cynaliadwy a moesegol.

## Golwg ar

**Sefydliad:** Y Brifysgol Agored
**Teitl:** Pecyn Cymorth Cynaliadwyedd Cyflogwyr

Mae'r fenter hon yn helpu cyflogwyr i ymgorffori cynaliadwyedd yn eu harferion recriwtio, yn arferion eu gweithle ac yn eu strategaethau datblygu talent. Mae'n cydnabod bod yn rhaid i ddyfodol gwaith fod yn gyson â chyfrifoldeb amgylcheddol a chymdeithasol, felly mae set o offer a chanllawiau ymarferol wedi cael eu datblygu.

Mae'n cynnwys dau adnodd am ddim i gyflogwyr eu cyrchu ar-lein, ar Hwb Cyfleoedd y Brifysgol Agored. Fe'i datblygwyd gan gydweithwyr o'r Tîm Ymgysylltu â Chyflogwyr a'r Adran Marchnata a Chyfathrebu o fewn y Gwasanaethau Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd.

Bydd y fenter hon yn cael ei gwerthuso drwy adborth ansoddol a meintiol gan gyflogwyr, gan ddangos lefel y dylanwad a gafwyd. Bydd staff mewnol yn rhoi cipolwg ar ansawdd a chanlyniadau rhyngweithiadau cyflogwyr. Bydd adborth myfyrwyr hefyd yn cael ei gasglu i ddeall amlygrwydd canfyddedig rolau cynaliadwy a gaiff eu hyrwyddo drwy'r fenter, ac apêl y rolau hynny.

Y manteision yw y bydd cyflogwyr yn dod yn fwy ymwybodol o'r modd y gallant ymgorffori cynaliadwyedd yn eu harferion i greu effaith amgylcheddol a chymdeithasol gadarnhaol ar gyfer y dyfodol. Mae'r pecyn cymorth yn sicrhau nad yw cynaliadwyedd yn cael ei drin fel ychwanegiad, ond fel elfen greiddiol o gyflogaeth ystyrlon a chyfrifol.

### Polisïau, dyfarniadau, cymwysterau a chyllid

Nodwyd bod polisïau’n bwysig ar gyfer cyflogadwyedd cynaliadwy a moesegol, gyda'r Polisi Gyrfaoedd Moesegol ym Mhrifysgol Abertawe, Prifysgol Aberystwyth a Phrifysgol Wrecsam ymhlith yr enghreifftiau penodol o hynny. Mae'r rhain yn rhoi eglurder i staff, myfyrwyr a sefydliadau allanol o ran gyrfaoedd a chyflogadwyedd, ac yn dangos tystiolaeth o gydymffurfio â gwerthoedd moesegol a chynaliadwy. Mae dyfarniadau a chymwysterau fel y dystysgrif a'r e-fathodyn Hyfforddiant Hinsawdd a Charbon Ar-lein allgyrsiol ym Mhrifysgol Abertawe a chymwysterau addysg bellach CBAC ar gyfer cynaliadwyedd sy'n cwmpasu'r Nodau Datblygu Cynaliadwy a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru (2015) yn cyfrannu ymhellach, gyda chyllid fel Cronfa Crewyr Busnes y Brifysgol Agored a Chronfa Cymorth Cyflogadwyedd Prifysgol

Metropolitan Caerdydd yn rhoi cymhelliant ychwanegol i ymgysylltu â mentrau cyflogadwyedd moesegol a chynaliadwy.

### Golwg ar

**Sefydliad:** Prifysgol Aberystwyth
**Teitl:** Polisi Gyrfaoedd Moesegol

Mae'r fenter hon yn bolisi wedi'i ddylunio i sicrhau bod gwasanaeth Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd Prifysgol Aberystwyth yn gyson â gwerthoedd moesegol a chynaliadwy. Fe'i harweinir gan Bolisi Cynaliadwyedd a Strategaeth Carbon Sero Net 2030 y brifysgol, ac mae'n anelu i hyrwyddo cyfleoedd cyfrifol o ran recriwtio a gyrfaoedd.

Mae'r nodau'n cynnwys:

+ gwahardd rhai diwydiannau gan gynnwys cwmnïau tanwydd ffosil, corfforaethau mwyngloddio a chynhyrchwyr tybaco
+ hyrwyddo cynaliadwyedd
+ sicrhau cyflogaeth ddiogel a theg
+ cyflog teg am interniaethau
+ cyllido mentrau cynaliadwyedd fel yr Ŵyl Gyrfaoedd a'r Gynhadledd Cynaliadwyedd.

O ganlyniad i'r polisi, mae myfyrwyr yn fwy ymwybodol o'r nodau hyn, gan wneud dewisiadau mwy cynaliadwy a moesegol ar eu llwybrau yn y dyfodol.

## 4.2 Cyfraniad at gyflogadwyedd moesegol a chynaliadwy

Mae'r themâu a nodwyd yn yr adroddiad hwn yn tynnu sylw at weithgarwch sylweddol ar draws y sector o ran hyrwyddo ymagweddau moesegol a chynaliadwy at gyflogadwyedd, fel y dangosir yn Ffigur 2. Mae sefydliadau yn gynyddol yn ymgorffori arfer a arweinir gan werthoedd mewn addysg gyrfaoedd, yn natblygiad myfyrwyr a wrth ymgysylltu â chyflogwyr. Mae'r newid hwn yn adlewyrchu cydnabyddiaeth gynyddol bod yn rhaid deall llwyddiant graddedigion nid yn unig mewn termau economaidd, ond hefyd drwy lens cyfrifoldeb cymdeithasol, tegwch ac effaith hirdymor. Mae'r adran hon yn dadansoddi cyfraniadau penodol y gweithgareddau hyn at hyrwyddo cyflogadwyedd moesegol a chynaliadwy ar draws addysg uwch.

| Themâu |
|---|
| Datblygu sgiliau |
| Gwybodaeth a dealltwriaeth |
| Cyflwyniad i fframweithiau |
| Cynaliadwyedd a moeseg ar waith |

Ffigur 2. Cyfraniad at gyflogadwyedd moesegol a chynaliadwy

### Datblygu sgiliau

Roedd datblygu sgiliau a rhinweddau graddedigion yn thema amlwg yn yr holl fentrau. Er enghraifft, cyfeiriwyd at gydweithio, cyfathrebu, meddwl beirniadol, dadansoddi data, gwneud penderfyniadau moesegol, gwaith grŵp, arloesi, myfyrio, sgiliau digidol, sgiliau ymarferol a meddwl drwy systemau fel sgiliau a ddatblygwyd gan amrywiaeth o randdeiliaid. Mae fframweithiau cymhwysedd fel wyth Cymhwysedd Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy UNESCO (Rieckmann, 2018) a'r Nodau Datblygu Mewnol (NDMau) (Inner Development Goals, nd, Ankrah et al, 2023) yn cael eu hystyried yn eang fel y dimensiynau a'r sgiliau sydd eu hangen ar fyfyrwyr er mwyn symud cymdeithasau tuag at ddatblygu cynaliadwy yn y dyfodol. Gelwir y rhain yn aml yn 'sgiliau gwyrdd' (Rieckmann, 2012; Wiek, Withycombe a Redman, 2011).  Mae'r Cenhedloedd Unedig (2024)  yn honni bod diffyg capasiti mewnol i ymdrin â heriau mwyfwy cymhleth yr amgylchedd a chymdeithas, felly mae'n hanfodol cysoni mentrau â sgiliau cyflogadwyedd wrth symud ymlaen.

## Golwg ar

**Sefydliad:** Prifysgol Caerdydd
**Teitl:** Gweithgor Moeseg, Gwerthoedd a Chynaliadwyedd

Ym mis Mawrth 2024, sefydlodd Dyfodol Myfyrwyr weithgor Moeseg, Gwerthoedd a Chynaliadwyedd fel un o gamau eu hymrwymiad strategol. Gyda mewnbwn gan randdeiliaid allweddol, mae'r gweithgor yn gweithio i ddatblygu ystod o adnoddau sy'n rhoi pwyslais mawr ar foeseg, gwerthoedd a chynaliadwyedd wrth ddewis gyrfa.

Mae'r gweithgareddau a'r digwyddiadau a gynhaliwyd yn cynnwys:

+ ‘Moeseg a'ch Gyrfa', adnodd digidol a gynhelir ar blatfform cyflogadwyedd y brifysgol, Dyfodol Myfyrwyr+

+ ychwanegu elfen cynaliadwyedd at ein gwobr cyflogadwyedd - Gwobr Caerdydd
+ gweithio gyda chyflogwyr i gyd-greu mentrau a gweithgareddau i hyrwyddo gyrfaoedd gwyrdd ymhellach ymhlith myfyrwyr fel 'Her Gyrfaoedd Amgylcheddol' a Chwrdd a Chyfarch Cyflogwyr.

Caiff llwyddiant ei fesur drwy'r niferoedd sy'n ymgysylltu, sgoriau adborth, effaith ansoddol ac allbynnau a gyflawnir.

Mae'r fenter hon yn galluogi myfyrwyr i deimlo wedi'u grymuso, a bod eu gwerthoedd yn cyd-fynd â'u dewisiadau gyrfa. Mae'n rhoi adnoddau ymarferol i fyfyrwyr, caiff rhanddeiliaid amrywiol gyfle i gydweithio, a gall myfyrwyr ymgysylltu â chyflogwyr.

### Gwybodaeth, dealltwriaeth a fframweithiau

Roedd cynyddu gwybodaeth a dealltwriaeth rhanddeiliaid amrywiol fel plant, myfyrwyr, staff, cymunedau a diwydiant yn gam allweddol tuag at gyflogadwyedd moesegol a chynaliadwy. Roedd rhan o'r broses hon yn cynnwys cyflwyno pynciau craidd fel moeseg, cynaliadwyedd a gweithredu ar yr hinsawdd, a fframweithiau fel Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015), fframwaith Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy, Cymwyseddau UNESCO, Nodau Datblygu Mewnol, Ffyrdd o Weithio a'r Pum Conglfaen Datblygu Cynaliadwy (pobl, ffyniant, heddwch, partneriaeth a'r blaned).

## Golwg ar

**Sefydliad:** CBAC
**Teitl:** Cymwysterau Addysg Bellach ar Gynaliadwyedd

Cynigir yr ystod hon o gymwysterau ar hyn o bryd drwy sefydliadau AB fel Grŵp Colegau Castell-nedd Port Talbot a Choleg Sir Gâr, ac fe'i datblygwyd mewn cydweithrediad â Swyddfa Comisiynydd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015).

Enghreifftiau o'r modd y mae sefydliadau AB yn defnyddio'r cymhwyster:

+ Grŵp Colegau Castell-nedd Port Talbot – ar hyn o bryd yn cyflwyno hyn yn rhan o Gyflwyniad i'r Rhaglen UG. Y gobaith yw ei fapio â rhaglen Cyflenwi Ynni Adnewyddadwy a gwblheir gan fyfyrwyr Peirianneg Lefel 2 a Lefel 3.

+ Coleg Sir Gâr – yn treialu hyn gyda grŵp o fyfyrwyr y Celfyddydau Perfformio Lefel 1 / Lefel 2 – maen nhw ar hyn o bryd yn trefnu i fynd ar daith wedi'i chynllunio'n arbennig o amgylch BBC Cymru i ganolbwyntio ar arferion cynaliadwy'r BBC.

Mae'r cymwysterau hyn wedi'u cynllunio i gyd-fynd yn uniongyrchol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) a Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig. Eu nod yw addysgu myfyrwyr am y fframweithiau hyn a sut y gellir eu rhoi ar waith yn ymarferol yn eu gweithle.

### Cynaliadwyedd a moeseg ar waith

Roedd cymhwyso gwybodaeth am gynaliadwyedd a moeseg i gyd-destunau ymarferol a'r byd go iawn yn rhan annatod o lawer o fentrau - er enghraifft, drwy gynnwys wedi'i addysgu, asesu, astudiaethau achos, prosiectau diwydiant a grŵp, digwyddiadau, hacathonau, gemau, cymdeithasau myfyrwyr, siaradwyr gwadd a chyrsiau hyfforddi. Roedd cymhwyso cyflogaeth gynaliadwy a moesegol, a gwerthfawrogiad o berthnasedd hynny, i'r byd go iawn yn gyfle i randdeiliaid fyfyrio ar eu heffaith unigol a'r modd y mae hyn yn cyfrannu'n ehangach i gymdeithas. Gellir gwireddu'r effaith hon drwy gyflogaeth foesegol a gyrfaoedd gwyrdd.

## Golwg ar

**Sefydliad:** Prifysgol Bangor
**Teitl:** Llefydd Newid Hinsawdd (LINH)

Gall amryw o randdeiliaid o bob cwr o'r Brifysgol gymryd rhan mewn cyfarfodydd, is-grwpiau thematig a gweithgareddau a drefnir gan y Ganolfan Ymchwil Llefydd Newid Hinsawdd (LINH). Mae'n gweithredu fel canolfan lle mae prosiectau'n ysbrydoli staff a myfyrwyr tuag at weithgareddau a chyflogaeth yn y dyfodol ym maes cynaliadwyedd amgylcheddol, oddi mewn ac oddi allan i'r byd academaidd.

Mae strwythur aelodaeth y Ganolfan yn cynnwys bwrdd rheoli, aelodau rheolaidd ac aelodau cysylltiol.

Caiff y Ganolfan fel arfer ei mesur yn ôl nifer y camau parhaus a gynhelir a phresenoldeb mewn gweithgareddau. Gellir hefyd ei gwerthuso yn ôl nifer y bobl sy'n ymgysylltu â'r adnoddau.

Mae moeseg a chynaliadwyedd yn greiddiol i egwyddorion y Ganolfan, ac mae'n rhoi cyfle i bobl gysylltu drwy'r gwerthoedd hynny. Mae ymgysylltu â'r Ganolfan a'i phrosiectau cysylltiedig yn gyfystyr â hyfforddiant ar weithredu moesegol a chynaliadwy ar draws amgylcheddau gwaith amrywiol, oddi mewn i'r byd academaidd a thu hwnt.

## 4.3 Gwerthuso mentrau

Cafodd y mentrau cyflogadwyedd moesegol a chynaliadwy a gasglwyd gan sefydliadau ledled Cymru eu gwerthuso drwy ddefnyddio gwahanol ddulliau, fel y dangosir yn Ffigur 3. Er enghraifft, gwahanol fathau o adborth, metrigau ymgysylltu â mentrau, canlyniadau mentrau a dangosyddion perfformiad sefydliadol.

| Themâu |
|---|
| Adborth |
| Ymgysylltu â'r fenter |
| Canlyniadau'r fenter |
| Perfformiad sefydliadol |

Ffigur 3. Gwerthuso mentrau


+ **Adborth ar y fenter**: ceisiwyd adborth gan amrywiaeth o randdeiliaid fel myfyrwyr, staff, cyflogwyr a chyfranogwyr ar draws yr holl fentrau. Roedd hyn yn amrywio rhwng adborth ar fodiwlau, adborth ar y cyfryngau cymdeithasol, adborth ar ddigwyddiadau, adborth gan gyflogwyr, adborth gan staff, adolygiadau o fentrau ac adborth yn rhan o broses adolygu'r cwricwlwm.
+ **Ymgysylltu â'r fenter**: defnyddiwyd metrigau ymgysylltu yn gyffredin fel offeryn gwerthuso, ond roedd y rhain fel arfer yn ddibynnol ar y cyd-destun, ac yn amrywio ar draws mentrau. Roedd yr enghreifftiau'n amrywio o ran nifer y mynychwyr, nifer y myfyrwyr, cyfraddau recriwtio i fodiwlau, niferoedd cyflogwyr, niferoedd staff, edrychiadau ar adnoddau, ailddefnydd o adnoddau ac amrywiaeth y myfyrwyr a oedd yn cymryd rhan yn y mentrau.
+ **Canlyniadau'r fenter:** defnyddiwyd canlyniadau mentrau penodol yn aml fel sail ar gyfer gwerthuso – er enghraifft, dealltwriaeth myfyrwyr, deilliannau dysgu, ansawdd gwaith, canlyniadau asesu, graddau myfyrwyr, cyfraddau cwblhau, allbynnau prosiectau, canlyniadau graddedigion a nifer y myfyrwyr sy’n astudio’n gysylltiedig â hynny.
+ **Perfformiad sefydliadol:** defnyddiwyd dangosyddion perfformiad hefyd i feincnodi fel gwerthusiad o ymrwymiad sefydliad tuag at gyflogadwyedd moesegol a chynaliadwy. Er

enghraifft – ffigurau cyrhaeddiad myfyrwyr, sgoriau a chyfraniad at dablau cynghrair fel People & Planet, Rhestrau Prifysgolion y Byd QS a Rhestrau Addysg Uwch y Times.

## 4.4 Prif fuddion y mentrau

Mae'r prif fuddion a hunanadroddwyd yn cyd-fynd yn agos ag Adran 4.2 uchod, ac mae'r themâu yn Ffigur 4 yn dangos ystod y cyfraniadau cadarnhaol a gysylltir â'r enghreifftiau arfer gorau.

| Themâu |
| --- |
| Sgiliau a gwybodaeth |
| Ymgysylltiad ac ymwybyddiaeth |
| Buddion cyflogadwyedd |
| Cymorth a chydnabyddiaeth i fyfyrwyr |
| Buddion sefydliadol |




Ffigur 4. Buddion y fenter

### Sgiliau a gwybodaeth

Y budd mwyaf cyffredin a adroddir yw datblygu gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau'n gysylltiedig â chyflogadwyedd moesegol a chynaliadwy. Mae llawer o'r rhain wedi'u nodi uchod yn Adran 4.2 ac yn gysylltiedig ag ystod amrywiol o randdeiliaid fel staff, myfyrwyr, partneriaid diwydiant, cymunedau a'r llywodraeth. Cyfeiriwyd yn gyffredin at sgiliau fel cydweithio, cyfathrebu, arwain a gwaith tîm a disgrifiwyd defnyddio enghreifftiau o arfer gorau a mentrau cyflogadwyedd fel budd addysgu mawr. Er enghraifft, drwy gyrsiau fel cwrs ar-lein 'Ymwybyddiaeth o Weithredu ar Garbon a'r Hinsawdd' Prifysgol Abertawe i staff a myfyrwyr neu 'Gardiau Sgiliau Cynaliadwyedd Dylunio Dysgu' y Brifysgol Agored'.

### Ymgysylltiad ac ymwybyddiaeth

Ymgysylltiad â phynciau sy'n gysylltiedig â chynaliadwyedd a moeseg ac ymwybyddiaeth ohonynt oedd yr ail fudd mwyaf cyffredin a nodwyd o fewn enghreifftiau o arfer gorau. Roedd hyn yn cynnwys cyfleoedd i ymgysylltu â rhanddeiliaid ac i farchnata'n benodol. Er enghraifft, ymgysylltu â'r gymuned o yn digwyddiad 'Ymgysylltu â'r Gymuned Greadigol' Prifysgol Aberystwyth a modiwl 'Marchnata er Lles' Prifysgol Abertawe, neu ymgysylltiad ac ymwybyddiaeth myfyrwyr drwy weithgor 'Moeseg, Gwerthoedd a Chynaliadwyedd' Prifysgol Caerdydd a'r Hacathon Rhyngddisgyblaethol a barodd i'r cyfranogwyr ymgysylltu â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015).

### Buddion cyflogadwyedd

Roedd buddion cyflogadwyedd moesegol a chynaliadwy yn cynnwys cynyddu ymwybyddiaeth cyflogwyr a chyflogadwyedd myfyrwyr, cyfleoedd am waith gyda thâl a chyfle i gymhwyso gwybodaeth i leoliadau diwydiant yn y byd go iawn. Er enghraifft, drwy gyllid fel y Gronfa Cymorth Cyflogadwyedd Dargededig ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd, cyfleoedd am interniaethau yn unol â Pholisïau Gyrfaoedd Moesegol sefydliadau amrywiol, gweithgorau fel gweithgor 'Moeseg, Gwerthoedd a Chynaliadwyedd' Prifysgol Caerdydd, fforymau tebyg i 'Fforwm Gweithredu Cynaliadwyedd' Prifysgol Wrecsam ac adnoddau fel y Pecyn Cymorth Cynaliadwyedd i Gyflogwyr gan y Brifysgol Agored.

### Cymorth a chydnabyddiaeth

Budd amhrisiadwy a nodwyd ar gyfer llawer o fentrau oedd grymuso a rhoi cymorth a chydnabyddiaeth i staff a myfyrwyr. Er enghraifft, cyd-greu, cydweithio a dathlu llais y myfyriwr fel y gwnaed yng ngweithgor 'Moeseg, Gwerthoedd a Chynaliadwyedd' Prifysgol Caerdydd, fforwm 'Dyfodol Boddhaus yn yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd' y Brifysgol Agored a 'Fforwm Gweithredu ar Gynaliadwyedd' Prifysgol Wrecsam. Roedd cefnogaeth i staff a myfyrwyr ar gyfer darpariaeth y cwricwlwm ac asesu hefyd yn fudd pwysig, yn unol â 'Gweithdy Moeseg yn y Cwricwlwm Peirianneg gan Brifysgol Abertawe, 'Cwrs Hyfforddi Canvas ar Ymgorffori Cynaliadwyedd yn y Cwricwlwm' gan Brifysgol Abertawe, a 'Chardiau Sgiliau Cynaliadwyedd Dylunio Dysgu' y Brifysgol Agored. Fodd bynnag, er mwyn rhoi cefnogaeth wirioneddol i fyfyrwyr, dylai mentrau fod yn hygyrch a hyrwyddo cyfranogiad amrywiol i hyrwyddo cydraddoldeb a chynhwysiant.  Roedd hyn yn ystyriaeth bwysig a amlygwyd gan 'Ffatri Sgiliau Digidol Medru' y Brifysgol Agored’. Yn olaf, roedd y mathau o gydnabyddiaeth a nodwyd yn cynnwys tystysgrifau, e-fathodynnau, graddau ffurfiannol a chrynodol, canlyniadau gradd, cymwysterau allgyrsiol a chwblhau cyrsiau.

### Buddion sefydliadol

Un brif fuddion yr enghreifftiau o arfer gorau oedd yr effaith gyfunol ar lefel unigol a lefel sefydliadol. Cyfeiriwyd at hyn drwy ddangosyddion perfformiad fel deilliannau graddedigion, ond mae effaith gyfunol addysgu cenhedlaeth o arweinwyr cyfrifol a moesegol y dyfodol yn ddangosydd mwy gwerthfawr. Mae'r buddion ychwanegol yn cynnwys cyfleoedd cyllido i staff, myfyrwyr a sefydliadau gefnogi cyflogadwyedd moesegol a chynaliadwy. Er enghraifft, drwy roi cymorth i'r staff a chynyddu eu sgiliau, drwy fentrau myfyrwyr, drwy rwydweithiau a phrosiectau sefydliadol. Gyda'i gilydd, mae'r buddion uchod yn cyfrannu at wella enw da'r sefydliad.

## 4.5 Gwelliannau i fentrau a chamau i'r dyfodol

Yng nghyd-destun heriau byd-eang sy'n cyflymu, o newid hinsawdd i aflonyddwch technolegol, ceir angen mwy brys nag erioed am fentrau cyflogadwyedd ymatebol sy'n canolbwyntio ar y dyfodol. Mae'r gweithgareddau a ddangosir yn yr adroddiad hwn yn cynrychioli sylfaen gref, ond wrth i'r sector ymlwybro drwy newid cyflym, maent hefyd yn dangos cyfle clir i gryfhau effaith drwy gydweithio dyfnach, cynhwysiant ehangach a mwy o ymdrechion bwriadol i sicrhau cysondeb â nodau cynaliadwyedd byd-eang. Mae'r adran hon yn archwilio meysydd i'w gwella ac yn amlinellu

camau gweithredu posibl i'r dyfodol i wella perthnasedd, cyrhaeddiad a chydnerthedd darpariaeth cyflogadwyedd. Mae Ffigur 5 yn tynnu sylw at feysydd allweddol lle mae angen gwella mentrau.

| Themâu |
| --- |
| Datblygu mentrau |
| Ymgysylltu â'r fenter |
| Adnoddau a gweinyddiaeth |
| Cymorth ac anogaeth |

Ffigur 5. Gwelliannau i fentrau

Y gwelliannau a'r camau gweithredu mwyaf cyffredin i'r dyfodol oedd datblygu mentrau cyflogadwyedd moesegol a chynaliadwy drwy ddatblygu, ehangu, amrywio neu wella gweithgareddau. Roedd y datblygiadau a nodwyd yn aml yn ymwneud yn benodol â phob menter unigol. Er enghraifft, defnyddiodd y Brifysgol Agored adborth gan randdeiliaid i lywio datblygiadau ar gyfer Pecyn Cymorth Cynaliadwyedd y Brifysgol Agored a threfnu i fyfyrwyr gyd-greu ei Sustainathon. Mae hyn yn gyson ag ymgysylltu, lle cydnabuwyd bod cynyddu cyfranogiad, yn enwedig cyfranogiad rhyngddisgyblaethol, ymgysylltiad â rhanddeiliaid, cyd-greu a marchnata yn ddulliau o gefnogi ac annog staff, myfyrwyr a rhanddeiliaid eraill i ymgysylltu â chyflogadwyedd moesegol a chynaliadwy.

Roedd enghreifftiau pellach yn cynnwys ehangu perthnasoedd lleol i gefnogi modiwl MSc Datblygu Cynaliadwy a Rheoli gyda Natur Prifysgol Caerdydd ac anogaeth gan reolwyr a hyrwyddwyr cynaliadwyedd i annog staff i gwblhau cwrs dewisol Prifysgol Abertawe, sef Ymgorffori Cynaliadwyedd yn y Cwricwlwm.  Fodd bynnag, nodwyd bod amser a chyllid ychwanegol yn adnoddau sydd eu hangen yn aml er mwyn gwella mentrau a'r trefniadau ar eu cyfer. Er enghraifft, dim ond pan fydd cyllid yn caniatáu y ceir digwyddiadau LINH Prifysgol Bangor, ac roedd angen amser ychwanegol i gefnogi Hacathon Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Prifysgol Abertawe (2015) er mwyn bwrw ymlaen â'r cynlluniau i ehangu'r digwyddiad yn ddigwyddiad Cymru gyfan.

## 4.6 Mewnwelediadau allweddol a goblygiadau ymarferol

Er bod y mentrau a adolygwyd yn cwmpasu ystod eang ac amrywiol o ddulliau, mae'r adran hon yn cydgasglu negeseuon allweddol er mwyn helpu i fyfyrio a datblygu'r mentrau'n ymarferol. Mae'r pwyntiau isod yn tynnu sylw at fewnwelediadau cyffredin sy'n gysylltiedig â chyflogadwyedd moesegol a chynaliadwy o sefydliadau addysg drydyddol ledled Cymru. Mae'r enghreifftiau hyn yn benodol i'r cyd-destun a dylid eu dehongli fel canllawiau – wedi'u haddasu a'u graddio i gyd-fynd ag anghenion, blaenoriaethau a strwythurau unigryw sefydliadau unigol.

+ **Mentrau wedi'u teilwra sy'n ymarferol berthnasol ac yn berthnasol i'r byd go iawn** a **siaradwyr gwadd** o ddiwydiant yn helpu myfyrwyr i deall pwysigrwydd cyflogaeth gynaliadwy a moesegol.
+ Mae **adnoddau digidol**, cyflwyno hybrid a dulliau amrywiol y cefnogi hygyrchedd wrth ddysgu.
+ Dylid cydnabod **amrywiaeth yr anghenion, y gwerthoedd a'r safonau** mewn mentrau cyflogadwyedd cynaliadwy a moesegol.
+ Mae **cefnogaeth gan y rheolwyr**, pwyllgorau a hyrwyddwyr cyflogadwyedd cynaliadwy a moesegol yn amhrisiadwy i ymgorffori'r pynciau hyn mewn prosesau a chwricwla. Mae angen cefnogaeth ac ymrwymiad myfyrwyr hefyd.
+ Mae **cyd-greu, cydweithio, rhannu arfer gorau** ac arloesi mewn addysgeg yn allweddol er mwyn hyrwyddo cyflogaeth gynaliadwy a moesegol.
+ Bydd datblygu **rhinweddau graddedigion, datblygiad mewnol a sgiliau gwyrdd,** a'u defnyddio'n aml, fel datrys problemau, cynllunio senarios a meddwl i'r dyfodol yn cefnogi arferion cynaliadwy.
+ **Mae amser yn bwysig.** Fel adnodd gall fod yn ffactor ataliol, ond mae'n ofynnol er mwyn i staff a myfyrwyr gwblhau hyfforddiant a myfyrio ar bynciau pwysig. Mae'n bwysig ystyried amseriad ac amserlenni mentrau hefyd.
+ Mae'n bwysig **gwerthuso mentrau** er mwyn creu effaith, ymgysylltu a datblygu.
+ Mae myfyrwyr yn gwerthfawrogi arweiniad gyrfa moesegol a chynaliadwy ac mae galw am gefnogaeth i **greu busnesau moesegol a chynaliadwy o'r cychwyn cyntaf.**

# 5 Casgliad

Ar draws sector addysg drydyddol y DU, mae tirlun cyfoethog ac amrywiol o weithgarwch yn dod i'r amlwg ar y groesffordd rhwng cynaliadwyedd a chyflogadwyedd. Mae'r adroddiad hwn wedi dangos enghreifftiau ysbrydoledig o'r modd y mae sefydliadau'n ymgorffori ymagweddau moesegol wedi'u sbarduno gan werthoedd  at ddatblygiad myfyrwyr, yn aml drwy fentrau creadigol a arweinir gan fyfyrwyr ac sy'n canolbwyntio ar y gymuned. Mae'r gweithgareddau hyn yn gwneud mwy na pharatoi graddedigion ar gyfer y farchnad lafur; maent yn cynorthwyo dysgwyr i lywio drwy heriau byd-eang cymhleth, datblygu ymdeimlad o ymreolaeth, a chyfrannu'n ystyrlon fel dinasyddion gweithredol.

Mae cyfyngiadau ymagwedd gul at gyflogadwyedd, sy'n seiliedig ar sgiliau yn unig, wedi bod yn amlwg ers peth amser. Wrth i faint heriau byd-eang, a'r brys i ymateb iddynt, ddwysáu, mae'r angen i gynorthwyo myfyrwyr i ddatblygu dealltwriaeth ehangach o gyflogadwyedd, sy'n seiliedig ar werthoedd, yn fwy tyngedfennol nag erioed. Mae addysgeg gyfoes yn mynnu mwy na pharatoadau dechnegol am y farchnad lafur – mae'n galw am brofiadau dysgu sy'n gynhwysol, yn ystyrlon ac wedi'u gwreiddio yng nghyd-destunau'r byd go iawn. Drwy arloesi'r cwricwlwm, mentrau allgyrsiol ac ymgysylltu â chyflogwyr, mae addysgwyr yn meithrin cysylltiadau rhwng cyflogadwyedd, Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig, ac, yng Nghymru ac, yng Nghymru, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015).

Rhaid cydnabod creadigrwydd, ymrwymiad ac arbenigedd addysgegol yr addysgwyr sy'n llunio'r agenda hon mewn amodau sy'n aml yn heriol. Mae eu gwaith yn dangos yr hyn sy'n bosibl o roi'r flaenoriaeth i addysgu sy'n seiliedig ar werthoedd. Ar yr un pryd, mae'r adroddiad yn nodi bylchau parhaus – yn enwedig lle mae peryg i gyfyngiadau ariannol, pwysau llwyth gwaith ac ansicrwydd sefydliadol gyfyngu ar arloesi. Bydd hi'n hanfodol mynd i'r afael â'r heriau hyn er mwyn sicrhau bod cyflogadwyedd yn addysg uwch y DU yn parhau i esblygu mewn ffyrdd sy'n gynaliadwy, yn deg ac yn canolbwyntio ar y dyfodol.

# 6 Argymhellion

Yn seiliedig ar ganfyddiadau'r prosiect hyd yma, rydym yn cynnig yr argymhellion canlynol.

## 6.1 Datblygu adnoddau - pecyn cymorth

Fel bod canfyddiadau'r prosiect ymchwil yn hygyrch i gynifer ag sy'n bosibl o randdeiliaid AU, AB ac allanol yng Nghymru a thu hwnt, bydd pecyn o enghreifftiau'n cael ei greu. Bydd y pecyn hwn yn tynnu sylw at ddulliau posibl o ymgorffori ac annog Cyflogadwyedd moesegol a chynaliadwy. Bydd pob enghraifft yn cynnwys gwybodaeth y gellir gweithredu arni, fel bod rhanddeiliaid yn gallu defnyddio ac adeiladu ar yr wybodaeth honno yn eu lleoliadau eu hunain.

## 6.2 Cydweithio a chyfathrebu

Mae'n amlwg o'r canfyddiadau fod cyflogadwyedd moesegol a chynaliadwy yn cael ei ymgorffori ledled AU ac ymhlith rhanddeiliaid eraill yng Nghymru. Ar sail hynny, a'r Gymuned Ymarfer, mae potensial i ddefnyddio'r fforwm hwn i dechrau cynnal trafodaethau, trafodaethau a allai droi'n weithredoedd, ynghylch sut y gellir cydweithio fel bod Cymru'n flaenllaw o ran Cyflogadwyedd moesegol a chynaliadwy.

## 6.3 Ymchwil/prosiectau pellach

Er mwyn adeiladu ymhellach ar ganfyddiadau'r ymchwil hyd yma, cynhelir ymarfer i fapio'r graddau y mae moeseg a chynaliadwyedd wedi'u hintegreiddio i AU ac AB ledled Cymru, drwy ddefnyddio methodolegau arolwg meintiol yn ogystal â methodolegau ansoddol cyfweliadau/grŵp ffocws. Bydd hyn yn galluogi dealltwriaeth eang ond manwl o gyflwr cyflogadwyedd moesegol a chynaliadwy yng Nghymru a'r modd y gellir adeiladu ymhellach ar hyn.

# 7 Cyfeiriadau

Ankrah, D, Bristow, J, Hires, D and Artem Henriksson, J (2023) 'Inner development goals: from inner growth to outer change', *Field Actions Science Reports*, 25: 82-87. Ar gael yn: journals.openedition.org/factsreports/7326

AU Ymlaen (2024) *Framework for Education for Sustainable Development*. Efrog: AU Ymlaen.

Braun, V a Clarke, V (2006) 'Using thematic analysis in psychology', *Qualitative Research in Psychology*, 3 (2): 77-101.

Cenhedloedd Unedig (2015) *Transforming our world: the 2030 Agenda for Sustainable Development*, A/RES/70/1. Efrog Newydd, NY: Y Cenhedloedd Unedig.

Cenhedloedd Unedig (2024) *Launch of SET4HEI: Sustainability Evaluation Tool for Higher Education Institutions*. Efrog Newydd, NY: Y Cenhedloedd Unedig.

Comisiwn Hinsawdd, Y (2021) *Climate action toolkit for the higher education sector*. Comisiwn Hinsawdd ar gyfer Addysg Uwch a Phellach y DU.

Higgins, K a Calvert, A (2025) *Education for Sustainable Development curriculum design toolkit*. Efrog: AU Ymlaen. Ar gael yn: s3.eu-west-2.amazonaws.com/assets.creode.advancehe-document-manager/documents/advance-he/Education_for_Sustainable_Development_Curriculum_Design_Toolkit_FINAL_1741962947.pdf

Inner Development Goals (nd), 'Inner Development Goals framework'. Inner Development Goals. Ar gael yn: innerdevelopmentgoals.org/framework/

Llywodraeth Cymru (2025) '*Llesiant cenedlaethau'r dyfodol*'. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael yn: www.llyw.cymru/llesiant-cenedlaethaur-dyfodol-cymru [cyrchwyd 2 Mehefin 2025].

PRME (2020) *Blueprint for SDG integration into curriculum*. Efrog Newydd, NY: PRME. Ar gael yn: www.unprme.org.uk/blueprint

QAA ac AU Ymlaen (2021) *Education for Sustainable Development guidance*. Caerloyw: Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch (QAA), ac Efrog: AU Ymlaen. Ar gael yn: s3.eu-west-2.amazonaws.com/assets.creode.advancehe-document-manager/documents/advance-he/education-for-sustainable-development-guidance_1616774629.pdf

Rieckmann, M (2012) 'Future-oriented higher education: which key competencies should be fostered through university teaching and learning?', *Futures*, 44 (2): 127-135.

Rieckmann, M (2018) 'Learning to transform the world: key competencies in Education for Sustainable Development', *Issues and Trends in Education for Sustainable Development,* 39 (1): 39-59.

UNESCO (2022) 'Berlin Declaration on Education for Sustainable Development'. *Proceedings of the UNESCO World Conference on Education for Sustainable Development*. UNESCO World Conference on Education for Sustainable Development, May 2021, online. Paris: UNESCO.

UNESCO (2024)*What is Education for Sustainable Development?* Paris: UNESCO.

Wiek, A, Withycombe, L a Redman, CL (2011) 'Key competencies in sustainability: a reference framework for academic program development', *Sustainability Science*, 6: 203-218.

# Atodiadau

## Atodiad 1 – Ffurflen enghreifftiol cyflogadwyedd moesegol a chynaliadwy

**Teitl y Prosiect: Cyflogadwyedd Moesegol a Chynaliadwy mewn Sefydliadau Addysg Uwch/Bellach yng Nghymru**

Ymchwilwyr:

+ Dr Samantha Burvill, Beth Cummings, Dr Fern Davies, Simeon Smith (Prifysgol Abertawe)
+ Lucy Jones (Prifysgol Wrecsam)
+ Laura Carter (Y Brifysgol Agored)
+ Saffron Passam (Prifysgol Aberystwyth)
+ Gemma Peterson (Prifysgol Caerdydd)
+ Hizamshol Shamshul Kamal (Prifysgol Bangor)

**Gwybodaeth am yr Astudiaeth**

Nod yr astudiaeth hon yw cael enghreifftiau o arfer gorau o'r modd yr ymdrinnir â chyflogadwyedd moesegol a chynaliadwy drwy holl sefydliadau addysg bellach/uwch yng Nghymru. **Yn y cyd-destun hwn diffinnir cyflogadwyedd moesegol a chynaliadwy** fel ymyrraeth â myfyrwyr a rhanddeiliaid allanol sydd "*yn rhoi'r wybodaeth, y cymwyseddau a'r gwerthoedd i ddysgwyr fynd i'r afael â heriau byd-eang rhyng-gysylltiedig, ac sy'n cael effaith gadarnhaol ar gynaliadwyedd economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol" (*AU Ymlaen, 2024, t2). Fe'i disgrifir hefyd gan AU Ymlaen a QAA fel "*y broses o greu strwythurau cwricwlwm a chynnwys sy'n berthnasol i'r pwnc i gefnogi a gweithredu datblygu cynaliadwy*" (QAA ac AU Ymlaen, 2021, t.2).

Rydym yn chwilio am enghreifftiau oddi mewn i'r cwricwlwm, yn allgyrsiol, o wasanaethau gyrfaoedd a menter ac o berthnasoedd â rhanddeiliaid allanol. Bydd yr enghreifftiau hyn o arfer gorau yn cael eu casglu mewn adroddiad a chyflwyniad ar gyfer Medr (Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil) yn ogystal â phecyn cymorth i'w ddefnyddio gan sefydliadau Addysg Uwch ac Addysg Bellach a thu hwnt.

Darperir ffurflen gydsynio isod i gael caniatâd gennych i ddefnyddio'r enghreifftiau a ddarperir mewn pecyn cymorth ac i roi adborth i Medr.

## FFURFLEN CYDSYNIO AR SAIL GWYBODAETH

Darllenwch y datganiadau canlynol ac, os ydych chi'n cytuno, rhowch eich blaenlythrennau yn y blwch cyfatebol i gadarnhau eich bod yn cytuno:

| | Blaenlythrennau |
|---|---|
| Rwyf yn cadarnhau fy mod wedi darllen a deall yr wybodaeth (a ddarperir uchod) ar gyfer yr astudiaeth uchod. Rwyf wedi cael cyfle i ystyried y wybodaeth, i ofyn cwestiynau ac wedi cael atebion boddhaol i'r rhain. | |
| Rwyf yn deall mai gweithred wirfoddol yw cymryd rhan, a bod rhyddid imi dynnu'n ôl ar unrhyw bryd heb roi unrhyw reswm. | |
| Rwyf yn deall y bydd fy nata yn cael eu trin yn gyfrinachol | |
| Rwyf yn cytuno'n rhydd i gymryd rhan yn yr astudiaeth hon ac yn deall y gall yr enghreifftiau yr wyf yn eu darparu gael eu cyhoeddi mewn adroddiad i Medr, mewn pecyn cymorth i Medr, ac mewn cyhoeddiadau eraill. | |

Llofnodion:

| ______________________ | ______________________ | ______________________ |
|---|---|---|
| Enw'r cyfranogwr (priflythrennau) | Dyddiad | Llofnod |
| ______________________ | ______________________ | ______________________ |
| Ymchwilydd (priflythrennau) | Dyddiad | Llofnod |

Os oes gennych unrhyw gwynion neu bryderon am yr ymchwil hwn, gallwch gysylltu â Dr Fern Davies ynf.b.davies@abertawe.ac.uk

**<u>Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cyflogadwyedd Moesegol a Chynaliadwy Medr</u>**

**<u>Enghreifftiau Sefydliadau o Fentrau Cyflogadwyedd Moesegol a Chynaliadwy sy'n Dangos Arfer Gorau</u>**

<table>
<tr><td colspan="2">Enw:</td></tr>
<tr><td colspan="2">E-bost:</td></tr>
<tr><td colspan="2">Sefydliad:</td></tr>
<tr><td colspan="2">Rôl:</td></tr>
<tr><td colspan="2">Teitl y fenter:</td></tr>
<tr><td><u>Math o Fenter:</u><br><br>Cwricwlaidd ☐<br><br>Allgyrsiol ☐<br><br>Tegwch a Chynhwysiant☐<br><br>Arall (rhowch fanylion isod) ☐</td><td><u>Ffurf y Gweithgaredd:</u><br><br>Seminar ☐<br><br>Darlith ☐<br><br>Digwyddiad ☐<br><br>Arall (rhowch fanylion isod) ☐</td></tr>
<tr><td colspan="2">Os 'arall', rhowch fanylion isod:</td></tr>
<tr><td colspan="2">Disgrifiad o'r fenter:<br>Rhowch ddisgrifiad cryno o'r fenter.<br>Beth oedd y nodau neu'r deilliannau dysgu?<br>Faint o gyfranogwyr wnaeth gymryd rhan?<br>Pwy oedd yn gysylltiedig â'r digwyddiad? (e.e. myfyrwyr, staff, cynrychiolwyr diwydiant, tîm menter ac ati.)<br>Oedd angen unrhyw ddeunyddiau, meddalwedd neu offer?<br>A oedd unrhyw gostau cysylltiedig? Os felly, manylwch.</td></tr>
</table>

| |
|---|
| **Ychwanegwch ddogfennau ategol (e.e. deunyddiau addysgu enghreifftiol) fel atodiad e-bost ar wahân.* |
| **Aliniad â Chyflogadwyedd Moesegol a Chynaliadwy:**<br>*Sut mae'r fenter hon yn cyfrannu at gyflogadwyedd moesegol a chynaliadwy?* |
| **Effaith a Gwerthuso:**<br>*Beth oedd prif fuddion a chanlyniadau'r fenter hon?*<br>*A gafodd y fenter ei gwerthuso?*<br>*Sut y cafodd llwyddiant ei fesur?* |
| **Prif fewnwelediadau a gwersi a ddysgwyd:**<br>*Beth oedd y prif fewnwelediadau a'r gwersi a ddysgwyd?*<br>*Beth oedd y prif negeseuon neu welliannau ar gyfer mentrau'r dyfodol?* |

Llenwch y ffurflen hon a'i hanfon, ynghyd ag unrhyw ddogfennau ategol (e.e. deunyddiau addysgu enghreifftiol) drwy e-bost i s.m.burvill@abertawe.ac.uk erbyn 15:00 ar 12 Mai 2025.

## Atodiad 2 – Crynodeb o fentrau cyflogadwyedd moesegol a chynaliadwy

| Sefydliad | Prosiect | Cyswllt | Math o fenter | Ffurf y gweithgaredd | Amser | Aliniad â Chyflogadwyedd Moesegol a Chynaliadwy |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Prifysgol Abertawe | | | | | | |
| Academi Dysgu ac Addysgu (PA) | Cwrs Canvas SALT 'Ymgorffori Cynaliadwyedd a'r Argyfwng Hinsawdd mewn Cwricwla Addysg Uwch | Dr Pamela Styles | Cwrs hyfforddi staff (cwricwlaidd) | Cwrs hyfforddi Staff Canvas | Parhaus/hunangofrestru a defnydd yn ôl y galw | Mae'r cwrs yn cyfeirio'n benodol at gymwyseddau addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy (ADC) sy'n cyd-fynd â rhinweddau allweddol graddedigion. |
| *Tîm Cynaliadwyedd (PA) | Cwrs E-ddysgu Hinsawdd a Charbon Ar-lein | Teifion Maddocks | Allgyrsiol | Cwrs hyfforddi staff a myfyrwyr | 1-2 awr | Yn rhoi'r wybodaeth a'r sgiliau i fyfyrwyr fynd i'r afael â heriau mawr cymdeithas. Mae'n rhoi hyfforddiant hefyd i aelodau staff, a all effeithio ar ddyluniad a datblygiad y cwricwlwm. |
| PA (Ysgol Reolaeth) | Cymdeithas Myfyrwyr Economi Gylchol Prifysgol Abertawe | Dr Sandra Dettmer | Allgyrsiol | Cymdeithas myfyrwyr | Parhaus | Sgiliau arweinyddiaeth, rheoli prosiect, cyfathrebu, gwaith tîm a gwyrdd. |
| PA (Ysgol Reolaeth) | Arolwg Cynaliadwyedd y Myfyrwyr | Dr Fern Davies | Arolwg myfyrwyr (cwricwlaidd) | Arolwg myfyrwyr | Dosbarthu'n flynyddol | Mae'r arolwg yn nodi cryfderau a meysydd i'w gwella er mwyn cryfhau rhinweddau graddedigion. |
| *PA (Ysgol Reolaeth) | Marchnata er Lles | Lucy Griffiths | Cwricwlaidd | Seminar, darlith a digwyddiad | Modiwl (1 tymor) | Prosiectau asesedig integredig 'Marchnata er Lles' yn gysylltiedig â'r diwydiant a osodwyd gan dri chleient allanol yn y trydydd sector: Ambiwlans Awyr Cymru, Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt De a Gorllewin Cymru, a The Wallich. Datblygu sgiliau ymarferol yn y diwydiant mewn lleoliadau labordy. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| PA (Ysgol Reolaeth) | Modiwl Gradd (Rheolaeth Amgylcheddol a Chynaliadwy) | Dr Jennifer Rudd a Sarah Atkinson | Cwricwlaidd | Seminarau a darlithoedd | Modiwl (1 tymor) | Sgiliau gwyrdd a throsglwyddadwy, gwybodaeth am y pwnc a siaradwyr o'r diwydiant/gwadd |
| PA (Peirianneg) | Moeseg yn y Cwricwlwm Peirianneg | Dr Sam Rolland | Cwricwlaidd | Seminarau | Modiwl MSc (1 tymor) | Mae'r modiwl yn cyflwyno pynciau y tu hwnt i agweddau technegol graddau'r myfyrwyr. Oherwydd y dull o asesu, drwy brosiect grŵp a briff polisi, nid yw'r cwmpas technegol wedi'i ragnodi, sy'n golygu bod myfyrwyr yn gallu cymhwyso gwybodaeth, dealltwriaeth a myfyrdodau ar beirianneg foesegol a chynaliadwy i'w maes eu hunain. |
| PA (Ysgol Reolaeth) | Menter a Chreadigrwydd: Entrepreneuriaeth ar Waith | Yr Athro Louisa Huxtable-Thomas | Cwricwlaidd | Seminarau a darlithoedd | Modiwl | Meddwl yn feirniadol, deall entrepreneuriaeth bwrpasol, effeithiolrwydd, bricolage a chasglu adnoddau, siarad â rhanddeiliaid a chasglu data'r farchnad wedi'u hymgorffori yn y cwrs. O ganlyniad i'r fenter hon, mae gan fyfyrwyr ddealltwriaeth well o rôl entrepreneuriaeth o ran ychwanegu gwerth i gymdeithas, nid cynhyrchu cyfoeth yn unig. |
| PA (Ysgol Reolaeth) | Prosiectau Busnes Copa (Cynaliadwyedd a Moeseg) | Dr Fern Davies | Cwricwlaidd | Prosiect busnes gan gynnwys seminarau a darlithoedd. | Prosiect Busnes Copa (1 flwyddyn) | Mae prosiect busnes y flwyddyn olaf yn rhoi cyfle i fyfyrwyr fynd i'r afael â her o'r diwydiant yn y byd go iawn. Roedd pob prosiect yn cyd-fynd ag o leiaf un o'r NDCau, a darparwyd prosiectau penodol mewn perthynas â chynaliadwyedd, Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol a moeseg. |
| PA (Y Cyfryngau) | Ymgorffori Dulliau Gwyrdd o fewn Modiwlau Ymarfer | Non Vaughn Williams | Cwricwlaidd | Darlith/ gweithgaredd asesu | Modiwl (1 tymor) | Mae'r fenter yn sicrhau bod gan raddedigion ddealltwriaeth lawn o'r pwysigrwydd a roddir gan ddiwydiant ar egwyddorion cynhyrchu gwyrdd, o gychwyn cyntaf y broses gomisiynu hyd at ddarparu. Oherwydd y cyfle i gynhyrchu cynnwys, gall myfyrwyr roi'r egwyddorion hyn ar waith a magu hyder yn eu dealltwriaeth o ffyrdd moesegol |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | a chynaliadwy o weithio o fewn sector cystadleuol sy'n symud yn gyflym. |
| PA (Y Gyfraith) | Seminarau Ymgorffori Cynaliadwyedd yn y Gyfraith | Karen Morrow | Cwricwlaidd | Darlith a seminar | 1-2 awr | Yng Nghymru, mae datblygu cynaliadwy yn gysyniad cyfreithiol, ac mae cadw at hynny'n gosod rhwymedigaethau cyfreithiol penodol ar gyrff cyhoeddus ac yn llywio eu polisïau a'r modd y gorfodir y gyfraith. Mae gwybodaeth weithiol am hyn yn angenrheidiol er mwyn deall a defnyddio cyfraith reoleiddio yng Nghymru, nid yn unig mewn cyd-destunau rheoleiddio amgylcheddol ond yn y sector cyhoeddus yn gyffredinol. Mae i'r cysyniad felly werth mewn ymarfer cyfreithiol, ac apêl i gyflogwyr. Tablau sefydliadau (e.e., BCorp), adnoddau ar gyfer gwaith cynaliadwy a sut i ryngweithio â chyflogwyr. |
| PA (Cyflogadwyedd) | Cael Hyd i Waith Cynaliadwy – Gweithdy Myfyrwyr | Simeon Smith | Allgyrsiol | Gweithdy myfyrwyr | 1-2 awr | Gweithdy cyflogadwyedd sy'n ymdrin â gwerthoedd proffesiynol, gwahanol fathau o gynaliadwyedd mewn cyflogwyr, |
| PA (Cyflogadwyedd) | Polisi Gyrfaoedd Moesegol Prifysgol Abertawe | Simeon Smith | Polisi | Polisi | Amh | Yn egluro beth i'w ddisgwyl wrth ryngweithio â Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd ym Mhrifysgol Abertawe wrth fyfyrwyr, staff a sefydliadau allanol. |
| PA (Ysgol Reolaeth) | Asesiad Modiwl Ôl-radd (Modiwl Arloesi ac Entrepreneuriaeth) | Dafydd Pickernell | Cwricwlaidd | Asesu | Modiwl (1 tymor) | Ehangir y ffocws ar arloesi ac entrepreneuriaeth drwy edrych ar fater yn y byd go iawn lle bydd syniadau'n berthnasol i ymchwil myfyrwyr yn y dyfodol. |
| PA (Ysgol Reolaeth) | Hacathon Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Cyfadran y Dyniaethau a'r Gwyddorau Cymdeithasol | Samantha Burvill | Allgyrsiol | Digwyddiad i fyfyrwyr | 6 awr | Cododd yr hacathon ymwybyddiaeth o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac annog myfyrwyr i feddwl am effaith hirdymor eu penderfyniadau. |
| PA | Hacathon Rhyngwladol “Dyfeisio er budd y blaned" | Kelly Jordan | Allgyrsiol | Digwyddiad i fyfyrwyr | 48 awr | Datblygodd graddedigion lawer o sgiliau yn yr hacathon, gan gynnwys y gallu i gymhwyso eu sgiliau datrys problemau i her yn y byd go iawn. |

| Y Brifysgol Agored | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| OU | Micro-gymhwyster – 'Trawsnewid eich Sefydliad er Cynaliadwyedd' | Victoria Hands | Cwricwlaidd | Micro-gymhwyster – dysgu ar-lein | 100 awr | Yn darparu sgiliau trosglwyddadwy ac ymarferol y gellir eu cymhwyso i sefydliad drwy gynllun gweithredu wedi'i ysbrydoli gan fewnwelediadau ac astudiaethau achos. |
| OU (Partneriaethau) | Adnodd E-ddysgu Ti, Fi a Dyfodol Cymru | Rebecca Falvey | Allgyrsiol | Adnodd OpenLearn i bawb | Parhaus | Mae'r adnodd yn darparu gwell dealltwriaeth o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, y Nodau Llesiant a'r Ffyrdd o Weithio, sydd o fudd i gyflogadwyedd graddedigion. |
| *OU (Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd) | Pecyn Cymorth Cynaliadwyedd Cyflogwyr | Jen Harrison | Allgyrsiol | Dau adnodd ar-lein i Gyflogwyr | Parhaus | Mae'r pecyn cymorth yn paratoi cyflogwyr am gyfeiriad gwaith yn y dyfodol, gan roi gwybodaeth iddynt am y cyfrifoldebau a'r arferion y bydd angen eu cynnwys mewn rolau swydd. |
| OU (Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd) | Dyfodol boddhaus yn yr amgylchedd a chynaliadwyedd | Kate Machent | Allgyrsiol | Fforwm Myfyrwyr Ar-lein | Fforwm ar-lein 6 diwrnod – darllen yn unig am 12 mis | Rhoddodd hyn gyfle i fyfyrwyr gyfathrebu mewn modd cydweithredol, gan gynnwys trafodaethau am gynaliadwyedd a'i rôl o fewn yr amgylchedd gwaith. |
| OU | Digwyddiad Troi'n Wyrdd - Nodau Datblygu Mewnol | Teresa Cox | Allgyrsiol | Digwyddiad i staff | Parhaus (wedi'i recordio) | Mae'r testun datblygiad mewnol a drafodir yn disgrifio'r sgiliau y gellir eu hennill o'r broses. O ganlyniad i'r galluoedd a ddatblygir drwy hyn, gellir ymaddasu'n well i newid. |
| OU (Partneriaethau) | Medru – Ffatri Sgiliau Digidol | Samantha Forde | Ecwiti a Chynhwysiant | Ffatri Sgiliau Digidol ar gyfer nifer o randdeiliaid | Parhaus | Yn darparu sgiliau sy'n ymwneud â data, seiberddiogelwch a TG, gan baratoi rhanddeiliaid am addasrwydd i dirlun y dyfodol. Amlinellir ymwybyddiaeth o ôl troed carbon. |
| OU (Cyfleoedd Myfyrwyr) | Cronfa Crëwyr Busnes Agored | Robert Wilson | Allgyrsiol | Cystadleuaeth i fyfyrwyr | Bob blwyddyn | Rhoddir offeryn i'r myfyrwyr sy'n mynnu eu bod yn ystyried y NDCau perthnasol ar gyfer eu dewis o fusnes, waeth pa sector y mae'n gweithredu ynddo. |
| OU (Dysgu, Sgiliau ac Arloesi) | Archwiliad o'r Cwricwlwm o ran Nodau Datblygu Cynaliadwy dan Arweiniad Myfyrwyr | Scott McKenzie | Cwricwlaidd | Prosiect ymchwil dan arweiniad myfyrwyr | 60 diwrnod (tua. 2 fis) | Drwy fapio NDCau cafodd y myfyrwyr gyfle i gymhwyso'u dysgu i brofiad yn y byd go iawn, gan ddatblygu eu sgiliau addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| *OU (Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd) | Sustainathon | Jen Harrison | Allgyrsiol | Digwyddiad i fyfyrwyr | Wythnos | Mae'r prosiectau elusennol a roddir i fyfyrwyr yn rhoi profiad go iawn iddynt o fewn amgylchedd gwaith digidol, sy'n cael effaith isel ar yr amgylchedd. Enillir sgiliau fel datrys problemau drwy ddulliau creadigol a chyfathrebu. |
| OU (Darlledu a Phartneriaethau) | The Regenerators: Green Careers | Victoria Hands | Allgyrsiol | Adnodd Ar-lein BBC Bitesize ar gyfer plant, arddegwyr a phobl ifanc. | Parhaus | Mae'r gyfres o fideos digidol sy'n seiliedig ar faterion amgylcheddol pwysig ac elfennau o gynaliadwyedd, yn rhoi dealltwriaeth i'r plant o hyn, ar gyfer eu gyrfaoedd yn y dyfodol. |
| OU (Grŵp Cynaliadwyedd Dylunio Dysgu) | Cardiau Sgiliau Cynaliadwyedd Dylunio Dysgu | Kathleen Calder, Paul Astles | Cwricwlaidd | Adnoddau addysgol agored i addysgwyr | Parhaus | Mae'r cardiau sgiliau cynaliadwyedd yn helpu addysgwyr i roi gwybodaeth i fyfyrwyr am y sgiliau cynaliadwyedd sy'n bodoli eisoes o fewn sgiliau cyflogadwyedd a llythrennedd digidol. Mae'r fframwaith Cyfrifol drwy Ddylunio (RBD) yn gyfle i fynd i'r afael â chyfrifoldebau a goblygiadau moesegol AI Cynhyrchiol. |
| Prifysgol Aberystwyth | | | | | | |
| *Prifysgol Aberystwyth (Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd) | Polisi Gyrfaoedd Moesegol Prifysgol Aberystwyth | Bev Herring | Polisi Gyrfaoedd Moesegol | Polisi Gyrfaoedd Moesegol | Parhaus | Mae'r polisi'n sicrhau bod y gwasanaeth gyrfaoedd a chyflogadwyedd o fewn y brifysgol yn gyson â gwerthoedd moesegol a chynaliadwy drwy flaenoriaethu'r gweithgareddau cysylltiedig. |
| Prifysgol Aberystwyth (Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd) | Her Cynaliadwyedd (Rhan o'r Ŵyl Gyrfaoedd, CareerFest, sy'n canolbwyntio ar gynaliadwyedd) | Bev Herring | Allgyrsiol | Digwyddiad (gweithdy rhyngweithiol) i fyfyrwyr | 3.5 awr | Mae'r her yn galluogi myfyrwyr i ennill sgiliau datrys problemau, gwaith tîm ac arweinyddiaeth, drwy arferion cynaliadwy. Mae'r her hefyd yn cynyddu eu hyder yn eu gyrfaoedd. |
| Prifysgol Aberystwyth (Biotechnoleg) | Ymgorffori Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol fel ysgogwyr ar gyfer | Hazel Davey | Cwricwlaidd | Darlithoedd, gweithdai a gwaith cwrs i fyfyrwyr | Modiwl yn cael ei ailadrodd bob blwyddyn | Drwy fynd i'r afael ag enghreifftiau o'r modd y cymhwysir Nodau Datblygu Cynaliadwy i fiotechnoleg, esbonnir wrth fyfyrwyr sut mae cynaliadwyedd yn ysgogi cwmnïau a buddsoddwyr. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | ymchwil mewn biotechnoleg. | | | | | |
| Prifysgol Aberystwyth (Newid Ymddygiad) | MSc Newid Ymddygiad | Simon Payne | Cwricwlaidd | Holl gynllun y cwrs | Bob blwyddyn | Anogir myfyrwyr i wneud gwahaniaeth economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cadarnhaol drwy gydol eu gwaith, ac yna cael y gallu i gymhwyso'r cynnwys hwn ar ôl graddio. |
| Prifysgol Aberystwyth (Gwleidyddiaeth Ryngwladol) | Myfyrwyr yn trefnu i ymgysylltu'n greadigol â'r gymuned | Katy Budge | Allgyrsiol, Addysg a Chymorth | Cyflwyno Gŵyl y Dydd | Un diwrnod (mwy ar gyfer hyfforddiant ymlaen llaw) | Drwy gefnogi cymunedau o ffoaduriaid bydd myfyrwyr yn ennill sgiliau, profiad a hyder sy'n berthnasol i hynny, ac yn ystyried agweddau ar eu gwaith yn y dyfodol. |
| Prifysgol Metropolitan Caerdydd | | | | | | |
| PMC (TESS) | Cynnal Cronfa Cymorth Cyflogadwyedd wedi'i Thargedu ym Met Caerdydd | Laura Stutins | Trawsffiniol | Amrywiaeth. Cymorth un wrth un i fyfyrwyr | Mae gweithgareddau'n amrywio – e.e. Apwyntiadau 20 munud neu 45 munud | Mae'n foesegol gan fod y brifysgol yn estyn allan at fyfyrwyr sydd angen cefnogaeth ychwanegol, gan rymuso eu sgiliau, a'i gwneud hi'n fwy tebygol iddynt gyfrannu mewn modd cynaliadwy i'r economi yn y dyfodol. |
| Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant | | | | | | |
| *PCYDDS (Addysg y blynyddoedd cynnar) | Adennill Paradwys: Cynaliadwyedd yn y blynyddoedd cynnar | Glenda Tinney | Cwricwlaidd | Modiwl yn cynnwys cyfranogiad myfyrwyr yng Ngwobr John Muir | Bob blwyddyn | Bydd archwilio agweddau cynaliadwyedd mewn perthynas â lleoliad addysgu'r blynyddoedd cynnar o gymorth i fyfyrwyr i ddefnyddio'r arferion hyn mewn swydd yn y dyfodol. |
| Prifysgol Caerdydd | | | | | | |
| Prifysgol Caerdydd (Datblygu Addysg) | Datblygu a chefnogi staff, Pecyn Cymorth Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a gweithdy DPP | Laura Barritt | Allgyrsiol | Pecyn cymorth ar-lein agored a gweithdy i staff | Pecyn cymorth – parhaus | Mae'r pecyn cymorth yn galluogi staff i ymgorffori arferion cynaliadwyedd pellach yn eu haddysgu. Mae'r gweithdy, lle cawsant gyfle i drafod pa arferion fydd yn gysylltiedig â rhinweddau graddedigion, yn cryfhau hynny. |
| Prifysgol Caerdydd (Ffisiotherapi) | MSc Ffisiotherapi a Therapi Galwedigaethol Cyn Cofrestru | Jill Morgan | Cwricwlaidd | Darlithoedd, gweithdai, | Bob blwyddyn | Caiff problemau bywyd go iawn eu profi yn y rhaglenni hyn, gan ganiatáu i fyfyrwyr ddatblygu sgiliau datrys problemau a meddwl yn feirniadol |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | prosiect grŵp i fyfyrwyr | | mewn perthynas â'r sector gofal iechyd, dan ddylanwad arferion cynaliadwy. |
| *Prifysgol Caerdydd (Ymgysylltu â Chyflogwyr) | Gweithgor a Gweithgaredd Moeseg, Gwerthoedd a Chynaliadwyedd | Jade Smithson-Perring | Allgyrsiol | Gweithgor, adnoddau ar-lein a digwyddiadau ar gyfer staff a myfyrwyr | Parhaus | Mae'r fenter yn codi ymwybyddiaeth, yn hyrwyddo meddwl beirniadol, yn annog penderfyniadau deallus, yn ehangu mynediad at yrfaoedd gwyrdd, ac yn cyd-fynd â rhinweddau graddedigion. |
| Prifysgol Caerdydd (Hanes Amgylcheddol) | Modiwl Hanes Amgylcheddol | Keir Waddington | Cwricwlaidd | Seminarau a darlithoedd i'r myfyrwyr | Bob blwyddyn | Mae'r cwrs yn cynnwys cyfathrebu, cydweithio a myfyrio, ar sawl ffurf, ynghylch sut yr edrychir ar wahanol faterion amgylcheddol mewn cyd-destun hanesyddol, a'r modd y gellir defnyddio hyn i greu mewnwelediadau newydd. |
| Prifysgol Caerdydd (Gwyddorau'r Ddaear ac Amgylcheddol) | Modiwl Daearwyddoniaeth Gynaliadwy | Joel Gill | Cwricwlaidd | Gweithgareddau modiwl ac asesiad i fyfyrwyr | Bob blwyddyn | Caiff sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig eu gosod yng nghyd-destun heriau cynaliadwyedd. Cynhelir dadansoddiadau data ar wybodaeth wyddonol, a bydd myfyrwyr yn cyflwyno eu canfyddiadau mewn amryfal ffyrdd. |
| Prifysgol Caerdydd (Ysgol Fusnes) | Modiwl Datblygu Cynaliadwy a Rheoli gyda Natur, fel rhan o'r MSc Rheolaeth Ryngwladol | Genevieve Shanahan | Cwricwlaidd | Gweithgaredd seminar i fyfyrwyr | Bob blwyddyn | Datblygir llawer o feysydd sgiliau yn y modiwl hwn, gan gynnwys datblygu gwybodaeth am heriau cynaliadwyedd, fframwaith gwneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar werthoedd a dadansoddi data moesegol. |
| Prifysgol Bangor | | | | | | |
| *Prifysgol Bangor | Llefydd Newid Hinsawdd (LINH) | Thora Tenbrink | Cwricwlaidd ac Allgyrsiol | Croestoriadol (Rhaglen Meistr, seminarau misol, gweithdy, interniaeth) | Parhaus | Mae'r fenter yn blaenoriaethu camau gweithredu moeseg a chynaliadwyedd, gan sicrhau bod amgylcheddau gwaith amrywiol yn cael eu cynnwys, o fewn y bydd academaidd a thu hwnt. |
| Prifysgol Bangor | Cyllid Cynaliadwyedd ac ESG | Hizamshol Kamal | Cwricwlaidd | Gweithgaredd seminar i fyfyrwyr | Parhaus | Yn annog myfyrwyr i wneud penderfyniadau'n foesegol ac yn gynaliadwy oherwydd gall pob gweithred gael effaith ehangach a thymor hir, a chysylltu eu heriau personol a phroffesiynol. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| CBAC | | | | | | |
| CBAC | Defnydd sefydliadau addysg bellach o Gymhwyster Cynaliadwyedd CBAC | Grŵp Colegau Castell-nedd Port Talbot, Coleg Sir Gâr, SABau eraill dienw a Thwf Swyddi Cymru | Cwricwlaidd | Gweithredu'r cymhwyster o fewn rhaglenni'r sefydliadau. | Parhaus | Cysylltir y Cymhwyster Cynaliadwyedd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig, gan addysgu'r myfyrwyr dan sylw. |
| *CBAC | Cymhwyster addysg bellach wedi'i ddatblygu mewn cydweithrediad â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. | Rachel Dodge | Cwricwlaidd | Cymhwyster sy'n cael ei gynnig drwy sefydliadau AB. | Parhaus | Mae'r cymwysterau'n dysgu myfyrwyr am Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig, a sut y gellir eu rhoi ar waith yn ymarferol yn eu gweithle. |
| Prifysgol Wrecsam | | | | | | |
| *Prifysgol Wrecsam | Rhwydwaith Dinasyddion Ecolegol+ | - | - | Rhwydwaith Ymchwil | 4 blynedd | Mae'r tîm amlddisgyblaethol yn dwyn gwybodaeth ynghyd er mwyn sicrhau dyfodol gwell i bawb drwy arferion cynaliadwy. |
| Prifysgol Wrecsam | Sgiliau Cynaliadwy ar gyfer Dyfodol Mwy Disglair | Lucy Jones | Cwricwlaidd | Gwelliannau i raglenni gradd | Parhaus | Yn rhoi cymorth i gymuned addysgedig sy'n symud ymlaen i wella ymwybyddiaeth o faterion byd-eang neu'r amgylchedd yn eu gyrfa graddedig. |
| Prifysgol Wrecsam | Prosiect Labordy Byw | Lesslie Malinga | Allgyrsiol | Prosiect | Un diwrnod | Cyfle i fyfyrwyr wirfoddoli mewn modd sy'n ymgysylltu â natur, gan gefnogi nodau cynaliadwyedd y Brifysgol. |
| Prifysgol Wrecsam | Polisi Gyrfaoedd Moesegol | Lynda Powell, Lucy Jones | Polisi | Polisi | Parhaus | Mae'r polisi'n cynrychioli'r cyfrifoldeb i gymryd cyfiawnder cymdeithasol a hinsawdd o ddifrif a dewis a dethol y sefydliadau y maent yn gweithio gyda nhw'n ofalus. |
| Prifysgol Wrecsam | Fforwm Gweithredu Cynaliadwyedd (SAF) | Prifysgol Wrecsam | Allgyrsiol | Y Wefan | Parhaus | Yn darparu adnoddau i fyfyrwyr ar brosiectau a mentrau cynaliadwy a moesegol eraill a all ehangu dealltwriaeth. |

# Atodiad 3 – tablau codio thematig

| **1. Disgrifiad o'r fenter cyflogadwyedd cynaliadwy a moesegol** | | |
|---|---|---|
| **Codio cychwynnol** | **Themâu** | **Nifer** |
| Modiwl | Dysgu ac Addysgu | 4 |
| Seminarau | | 10 |
| Darlith | | 11 |
| Gweithdy | | 6 |
| Adnodd addysgol | | 1 |
| Cwrs e-ddysgu i fyfyrwyr | | 1 |
| Cwrs micro-gymwysterau | | 1 |
| Newidiadau i'r cwricwlwm | | 1 |
| Prosiect busnes | Prosiectau myfyrwyr | 1 |
| Prosiect grŵp | | 1 |
| Prosiect ymchwil | | 2 |
| Prosiect myfyrwyr | | 1 |
| Asesu | Asesu | 4 |
| Pecyn cymorth staff | Hyfforddi a chefnogi staff | 1 |
| Grŵp cymorth cwricwlwm | | 1 |
| Gweithgor | | 1 |
| Cwrs e-ddysgu i staff | | 1 |
| Adnodd ar-lein | | 1 |
| Hyfforddiant ar-lein | | 1 |
| Cwrs Canvas | | 1 |
| Arolwg myfyrwyr | Adborth myfyrwyr | 1 |
| Cymorth i fyfyrwyr | Cymorth i fyfyrwyr | 1 |
| Cymdeithas myfyrwyr | | 1 |
| Digwyddiad | Digwyddiadau | 11 |
| Pecyn cymorth i gyflogwyr | Adnoddau cyflogadwyedd | 1 |
| Adnodd gyrfaoedd | | 1 |
| Adnodd cyflogadwyedd ar-lein | | 1 |
| Cystadleuaeth | Cystadlaethau | 1 |
| Gwobr cynaliadwyedd | Dyfarniadau, cymwysterau a chyllid | 1 |
| Cymhwyster | | 2 |
| Cyllid | | 1 |
| Polisi | Polisïau | 3 |
| Fforwm ar-lein | Rhwydweithiau a fforymau | 1 |
| Rhwydwaith | | 1 |
| Y Wefan | | 1 |

| **2. Aliniad â chyflogadwyedd moesegol a chynaliadwy** | | |
|---|---|---|
| **Codio Cychwynnol** | **Themâu** | **Nifer** |
| Sgiliau cydweithio | Datblygu sgiliau | 5 |
| Sgiliau cyfathrebu | | 5 |
| Sgiliau dadansoddi beirniadol | | 1 |
| Sgiliau meddwl beirniadol | | 2 |
| Sgiliau dadansoddi data | | 1 |
| Sgiliau penderfynu | | 2 |
| Datblygu sgiliau graddedigion | | 4 |
| Sgiliau digidol | | 1 |
| Sgiliau graddedig | | 1 |
| Datblygu sgiliau gwyrdd | | 1 |
| Sgiliau gwaith grŵp | | 3 |
| Arloesi a sgiliau creadigol | | 4 |
| Sgiliau ymarferol | | 2 |
| Sgiliau adnabod problemau | | 1 |
| Sgiliau datrys problemau | | 3 |
| Sgiliau myfyrio | | 2 |
| Sgiliau Gwyrdd Myfyrwyr | | 1 |
| Sgiliau meddwl drwy systemau | | 1 |
| Sgiliau cynaliadwyedd i blant | | 1 |
| Cymhwyso gwybodaeth | Gwybodaeth a dealltwriaeth | 1 |
| Gwybodaeth am arferion digidol gwyrdd | | 2 |
| Dealltwriaeth o newid hinsawdd | | 1 |
| Dealltwriaeth myfyrwyr | | 1 |
| Gwybodaeth am gynaliadwyedd | | 2 |
| Datblygu'r cwricwlwm | | 3 |
| Cynnwys cynaliadwyedd | | 1 |
| Addysg ar gynaliadwyedd i blant | | 1 |
| Cymwyseddau UNESCO | Cyflwyniad i fframweithiau | 1 |
| Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol | | 7 |
| Nodau Datblygu Cynaliadwy | | 8 |
| Cysylltiad ag Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy | | 3 |
| Pum conglfaen | | 1 |
| Cynaliadwyedd a moeseg ar waith | Cynaliadwyedd a moeseg ar waith | 1 |
| Cynaliadwyedd ar waith | | 10 |
| Datblygu cynaliadwy ar waith | | 1 |
| Prosiectau cynaliadwyedd a moeseg | | 2 |
| Cynaliadwyedd ar gyfer y dyfodol | | 1 |
| Cynaliadwyedd mewn diwydiant | | 1 |
| Astudiaeth achos cynaliadwyedd | | 2 |
| Penderfyniadau moesegol a chynaliadwy | | 1 |
| Dadansoddi data moesegol | | 1 |
| AI Cynhyrchiol a moeseg | | 1 |
| Moeseg | | 1 |

| | | |
|---|---|---|
| Cyflogadwyedd | | 6 |
| Gyrfaoedd moesegol | | 1 |
| Cyflogaeth foesegol | | 1 |
| Gyrfaoedd gwyrdd | | 15 |
| Effaith myfyrwyr ar gynaliadwyedd | Effaith Unigol a Chymdeithasol | 1 |
| Effaith gymdeithasol | | 1 |
| Effaith gymdeithasol | | 1 |

| **3. Gwerthuso mentrau** | | |
|---|---|---|
| **Codio Cychwynnol** | **Themâu** | **Nifer** |
| Adborth o fodiwl | Adborth | 3 |
| Adborth | | 6 |
| Adborth myfyrwyr | | 18 |
| Adborth staff | | 4 |
| Adborth gan gyfranogwyr | | 2 |
| Adborth cyflogwyr | | 2 |
| Adborth ar y cyfryngau cymdeithasol | | 3 |
| Adborth gan randdeiliaid | | 4 |
| Adolygiadau o fentrau | | 1 |
| Adolygiad o'r cwricwlwm | | 1 |
| Edrychiadau ar adnoddau | Ymgysylltu â'r fenter | 1 |
| Ymgysylltu | | 5 |
| Niferoedd a gyrchwyd | | 3 |
| Presenoldeb | | 9 |
| Niferoedd myfyrwyr | | 1 |
| Niferoedd cyflogwyr | | 1 |
| Niferoedd aelodau | | 1 |
| Niferoedd cyfranogwyr | | 6 |
| Nifer y digwyddiadau | | 1 |
| Defnydd o adnoddau | | 1 |
| Ailddefnyddio adnoddau | | 1 |
| Amrywiaeth myfyrwyr | | 1 |
| Recriwtio i fodiwlau | | 1 |
| Graddau myfyrwyr | Canlyniadau'r fenter | 3 |
| Dealltwriaeth myfyrwyr | | 3 |
| Ansawdd y gwaith | | 1 |
| Canlyniadau asesu | | 6 |
| Cyfradd cwblhau | | 1 |
| Cwblhau prosiect | | 1 |
| Allbynnau | | 1 |
| Cwblhau dyfarniad | | 3 |
| Deilliannau dysgu | | 1 |
| Deilliannau graddedigion | | 4 |
| Nifer sy'n dilyn astudiaethau cysylltiedig | | 1 |
| Tablau cynghrair | Perfformiad sefydliadol | 1 |
| Sgoriau | | 2 |
| Cyrhaeddiad myfyrwyr | | 1 |

| **4. Prif fuddion/canlyniadau** | | |
|---|---|---|
| **Codio cychwynnol** | **Themâu** | **Nifer** |
| Cydweithredu | Sgiliau a Gwybodaeth | 3 |
| Cyfathrebu | | 2 |
| Dealltwriaeth staff | | 3 |
| Sgiliau a gwybodaeth | | 32 |
| Enghreifftiau o arfer gorau | | 1 |
| Buddion addysgu | | 8 |
| Marchnata | Ymgysylltu ac Ymwybyddiaeth | 1 |
| Ymgysylltu | | 4 |
| Ymgysylltu â rhanddeiliaid | | 11 |
| Ymwybyddiaeth | | 6 |
| Cyflogadwyedd | Buddion Cyflogadwyedd | 5 |
| Ymwybyddiaeth cyflogwyr | | 1 |
| Gwaith â thâl | | 1 |
| Cymhwyso i'r byd go iawn | | 8 |
| Grymuso myfyrwyr | Cymorth a Chydnabyddiaeth i Fyfyrwyr | 1 |
| Cymorth i fyfyrwyr | | 5 |
| Cydnabyddiaeth | | 7 |
| Effaith | Buddion i'r Sefydliad | 2 |
| Cyllid | | 4 |
| Enw Da | | 2 |

| **5. Prif welliannau/camau i'r dyfodol** | | |
|---|---|---|
| **Codio cychwynnol** | **Themâu** | **Nifer** |
| Datblygu gweithgareddau | Datblygu mentrau | 8 |
| Ehangu'r fenter | | 1 |
| Gwelliannau addysgu | | 6 |
| Arferion menter cynaliadwy | | 5 |
| Aseiniadau prosiect i fyfyrwyr | | 1 |
| Amrywio'r dull asesu | | 2 |
| Amser | Adnoddau a gweinyddiaeth | 1 |
| Cyllid | | 1 |
| Sefydliad | | 2 |
| Cymorth i fyfyrwyr | Cymorth ac anogaeth | 2 |
| Anogaeth i'r staff | | 1 |
| Anogaeth i fyfyrwyr | | 2 |
| Ymgysylltu â rhanddeiliaid | Ymgysylltu | 2 |
| Cynyddu cyfranogiad | | 3 |
| Adnoddau gorfodol | | 2 |
| Cyfranogiad rhyngddisgyblaethol | | 1 |
| Myfyrwyr yn cyd-greu | | 1 |
| Marchnata | | 1 |

# 8 Geirfa

CMaCh - Cyflogadwyedd Moesegol a Chynaliadwy

AU – Addysg uwch

AB – Addysg bellach

SALT – Academi Dysgu ac Addysgu Prifysgol Abertawe

NDCau - Nodau Datblygu Cynaliadwy

PCYDDS - Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant

WFGA - Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru, 2015)

# 9 Diolchiadau

Hoffai tîm y prosiect ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu enghreifftiau o arfer gorau i'r prosiect hwn, yn enwedig o fewn cyfnod mor fyr. Mae eich angerdd, eich ymroddiad a'ch arloesedd ym maes cyflogadwyedd moesegol a chynaliadwy yn cael effaith gadarnhaol ar fyfyrwyr, staff a rhanddeiliaid ehangach, a bydd yr effaith honno'n parhau. Hoffem hefyd ddiolch i Medr ac AU Ymlaen am y cyllid a alluogodd y prosiect hwn yn y lle cyntaf ac am eu cefnogaeth barhaus wrth fynd â'r prosiect hwn ymhellach dros y misoedd a'r blynyddoedd nesaf. Mae'r cyllid hwn wedi annog a galluogi cydweithwyr ledled Cymru i gydweithio ac adeiladu timau, ac rydym yn hynod ddiolchgar am hynny.

# Contact us

**All enquiries**

Email: communications@advance-he.ac.uk

**Advance HE helps HE institutions be the best they can be, by unlocking the potential of their people.**

We are a member-led, sector-owned charity that works with institutions and higher education across the world to improve higher education for staff, students and society. We are experts in higher education with a particular focus on enhancing teaching and learning, effective governance, leadership development and tackling inequalities through our equality, diversity and inclusion (EDI) work.

Our strategic goals to enhance confidence and trust in HE, address inequalities, promote inclusion and advance education to meet the evolving needs of students and society, support the work of our members and the HE sector.

We deliver our support through professional development programmes and events, Fellowships, awards, student surveys and research, providing strategic change and consultancy services and through membership (including accreditation of teaching and learning, equality charters, knowledge and resources).

Advance HE is a company limited by guarantee registered in England and Wales no. 04931031. Company limited by guarantee registered in Ireland no. 703150. Registered as a charity in England and Wales no. 1101607. Registered as a charity in Scotland no. SC043946. Registered Office: Advance HE, Innovation Way, York Science Park, Heslington, York, YO10 5BR, United Kingdom.

---

© 2024 Advance HE. All rights reserved.

The views expressed in this publication are those of the author and not necessarily those of Advance HE. No part of this publication may be reproduced or transmitted in any form or by any means, electronic or mechanical, including photocopying, recording, or any storage and retrieval system without the written permission of the copyright owner. Such permission will normally be granted for non-commercial, educational purposes provided that due acknowledgement is given. The Advance HE logo should not be used without our permission.

To request copies of this report in large print or in a different format, please contact the Marketing and Communications Team at Advance HE: communications@advance-he.ac.uk

**advance-he.ac.uk**

@AdvanceHE